

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

19/2023

DYDDIAD CYHOEDDI: 28/02/2023



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad Galw'r Farchnad ym maes Twristiaeth Croeso Cymru – y DU Ionawr 2023

ISBN Digidol 978-1-80535-522-9

© Hawlfraint y Goron

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg /
This document is also available in English.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Adroddiad Galw'r Farchnad Croeso Cymru – y DU Ionawr 2023
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 19/2023.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/adroddiadau-galwr-farchnad-ym-maes-twristiaeth-ionawr-2023>

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru,
Economi, Trysorlys a Chyfansoddiad
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: tourismresearch@gov.wales

Cynnwys (cliciwch ar y teitl i neidio i'r bennod)

Pennod	Rhif tudalen
<u>Cefndir a Methodoleg</u>	4
<u>Canfyddiadau allweddol</u>	9
<u>Demograffeg y Farchnad Gwyliau Domestig</u>	16
<u>Dylanwadau a Dewisiadau Triplau</u>	21
<u>Perthynas Cyrchfan ac Ymweliadau Blaenorol</u>	32
<u>Ymweliadau â Chymru yn 2022</u>	39
<u>Pobl nad ydynt yn ymwelwyr â Chymru yn 2022</u>	52
<u>Ymweliadau â Chymru yn 2023</u>	57
<u>Rhwystrau i ymweld â Chymru yn 2023</u>	75
<u>Apêl Llwybrau/Trywyddau</u>	79
<u>Effaith Marchnata</u>	90
<u>Hyrwyddiad ac ymwybyddiaeth o Gymru o Gwpan Pêl-droed y Byd (Tachwedd 2022)</u>	100
<u>Atodiad</u>	104

Cefndir a Methodoleg



Cefndir

Fel tîm twristiaeth Llywodraeth Cymru, Croeso Cymru sy'n gyfrifol am drefnu ymgyrchoedd twristiaeth yn y DU ac yn rhyngwladol i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan gwyliau. Fel rhan o hyn, bob blwyddyn mae Croeso Cymru yn cynnal ymchwil ymhlith ei farchnadoedd blaenoriaeth. Mae'r ymchwil a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn ymdrin â Marchnad y DU ac yn edrych yn fras ar:

- Y ffactorau sy'n dylanwadu ar wyliau domestig a dewis gwyliau byr
- Mathau o gyrchfannau a phrofiadau a ffafrir ar wyliau domestig a gwyliau byr
- Gwyliau byr a gwyliau a gymerwyd yng Nghymru yn 2022
- Gwyliau byr a gwyliau wedi'u cynllunio yng Nghymru yn 2023
- Rhesymau dros beidio ag ymweld â Chymru yn 2022 a thros beidio â chynllunio i ymweld â Chymru yn 2023
- Apêl llwybrau teithiau yng Nghymru
- Ymgysylltu â sianeli gwybodaeth a marchnata Croeso Cymru
- Effaith Cwpan y Byd ar ganfyddiadau o Gymru
- Proffilio a demograffeg

Methodoleg

Cysylltwyd ag ymatebwyr trwy banel ar-lein y gellid ei gwblhau trwy gyfrifiadur bwrdd gwaith neu ddyfais symudol. I fod yn gymwys ar gyfer yr arolwg, rhaid i gyfranogwyr berthyn i **farchnad gwyliau domestig y DU (term a ddefnyddir drwy gydol yr adroddiad hwn)**. Rydym yn diffinio hyn fel:

- Rhaid bod yn benderfynwr gwyliau neu wyliau byr
- Rhaid bod wedi cymryd gwyliau byr yn y DU neu wyliau yn ystod y 5 mlynedd diwethaf
- Rhaid bod yn ystyried cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU o ddifrif yn ystod y 12 mis nesaf.

Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 3 Ionawr a 17 Ionawr 2023.

Cwblhawyd 1,136 o arolygon. Roedd y 1,000 o ymatebion cyntaf yn gynrychioliadol yn genedlaethol o boblogaeth y DU sy'n cymryd gwyliau domestig. Yna cynhaliwyd hwb o 136 o arolygon ymhlith preswylwyr o Gymru. Yna pwyswyd y data i fod yn gynrychioliadol o boblogaeth y DU sy'n cymryd gwyliau gartref, gan sicrhau y gellir ei gymharu ag astudiaethau blaenorol. Pwysolwyd data yn ôl rhyw, oedran, gradd gymdeithasol a rhanbarth preswyllo.

Ar gyfartaledd cymerodd yr arolwg 25 munud i'w gwblhau.

Lle bo'n bosibl, gwneir cymariaethau ag arolygon blaenorol o'r math hwn, a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2022 a chyn y pandemig ym mis Ionawr 2020. Sylwer, gall rhai gwahaniaethau gael eu llywio gan newidiadau tymhorol.

Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (1)

Yn yr adroddiad hwn rydym yn defnyddio nifer o dermau i ddiffinio ymatebwyr yr arolwg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Marchnad gwyliau domestig y DU:** Cyfanswm sampl yr arolwg. Preswylwyr y DU sydd o ddifrif yn ystyried gwyliau neu wyliau byr yn y DU yn ystod y 12 mis nesaf
- **Ymgwymerwyr tripiâu yng Nghymru:** Preswylwyr y DU a ddywedodd eu bod wedi cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn 2022. Mae ymddygiad y gynulleidfa hon yn ymwneud â'r flwyddyn gyfan.
- **Bwriadwyr tripiâu yng Nghymru:** Preswylwyr y DU sydd yn bendant neu fwy na thebyg yn bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn ystod y 12 mis nesaf. Mae ymddygiad tripiâu ar gyfer y gynulleidfa hon yn ymwneud â'u trip nesaf sydd wedi'i gynllunio yng Nghymru felly bydd tuedd naturiol iddi yn gynharach yn y flwyddyn. Gyda hyn mewn golwg, ni ddylid cymharu tripiâu a gynllunnir ar gyfer 2023 â thripiâu a gymerwyd yn 2022.

Er mwyn darparu proffiliau cliriach, rydym hefyd yn proffilio yn ôl cyfnod bywyd. Mae cyfnodau bywyd yn fwy dymunol i 'oedran' gan eu bod yn disgrifio sefyllfa bywyd rhywun yn well. At ddiben yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r canlynol:

- **Cyn-nythwyr:** 16-34 oed heb blant yn y cartref
- **Teuluoedd:** 16-64 oed gyda phlant yn y cartref
- **Annibynwyr hŷn:** 35-64 oed heb unrhyw blant yn y cartref
- **Oedran ymddeol:** 65+ oed.

Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (2)

Rydym hefyd yn defnyddio 'graddau cymdeithasol' yn yr adroddiad hwn. Mae Gradd Gymdeithasol yn system ddsbarthu sy'n seiliedig ar alwedigaeth ac mae'n cyd-fynd yn fras ag incwm. Mae wedi cael ei ddefnyddio fel safon o fewn ymchwil marchnad ers nifer o ddegawdau i adeiladu dealltwriaeth o ymatebwyr ochr yn ochr â nifer o ffactorau eraill. Yn yr adroddiad hwn, dylid asesu gradd gymdeithasol ochr yn ochr â segmentau cyfnod bywyd, ariannol ac agwedd. Yn fras, amlinellir graddau cymdeithasol fel a ganlyn:

- **A Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch**
- **B Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol canolradd**
- **C1 Galwedigaethau goruchwylio, clerigol a rheoli iau, gweinyddol a phroffesiynol**
- **C2 Gweithwyr llaw medrus**
- **D Gweithwyr llaw lled-fedrus a di-grefft**
- **E Pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol a gweithwyr gradd isaf, di-waith gyda budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig**

Canfyddiadau Allweddol



Canfyddiadau allweddol (1)

Marchnad Gwyliau Domestig y DU

1. Mae'r ymchwil hwn yn nodi marchnad gwyliau domestig y DU fel y rhai sydd wedi cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y 5 mlynedd diwethaf ac sy'n bwriadu mynd ar drip arall yn 2023.
2. Teuluoedd yw'r gyfran fwyaf o'r farchnad bresennol (37%), ac yna Annibynwyr Hŷn (27%) ac Ymddeolwyr (23%). Cyn-nythwyr yw'r segment lleiaf o'r farchnad gyfredol (13%).
3. Mae'r farchnad ddomestig wedi'i gogwyddo tuag at grwpiau cymdeithasol-economaidd ABC1 sy'n cyfrif am ddwy ran o dair o'r ymwelwyr presennol.
4. Mae rhanbarth preswyllo'r farchnad gwyliau domestig yn atgynhyrchu'n fras boblogaeth y DU ac mae wedi'i wasgaru ar draws rhanbarthau a chenhedloedd y DU.

Canfyddiadau allweddol (2)

Dylanwadau a Dewisiadau Triplau – Gwyliau yn y DU

1. Mae cyllid yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y farchnad gwyliau domestig. 'Gwerth gwych am arian' yw'r dylanwad cyrchfan mwyaf poblogaidd ar gyfer gwyliau domestig/gwyliau byr yn y 12 mis nesaf – sy'n gyson ar draws pob gradd gymdeithasol. Er nad yw 'gwerth gwych am arian' o reidrwydd yn golygu 'triplau cost isel', mae opsiynau pris is yn debygol o gael eu ffafrio ar draws y rhan fwyaf o elfennau'r trip gwyliau.
2. 'Rhwyddineb teithio i'r gyrchfan a mynd o'i chwmpas' yw'r dylanwad pwysicaf nesaf i farchnad wyliau'r DU. 'Mynediad teithio' yw'r prif reswm dros beidio ag ystyried ymweld â Chymru yn 2023, yn ogystal â'r rhai nad ydynt yn ymwelwyr yn 2022. Er bod hyn yn cael ei yrru'n bennaf gan y pellter o Gymru, gall hefyd adlewyrchu rhai canfyddiadau negyddol o deithio yng Nghymru.
3. Y tu hwnt i'r ffactorau ymarferol hyn, 'tirweddau a golygfeydd anhygoel', 'llety o ansawdd uchel', 'tirnodau ac atyniadau enwog' a 'chyrchfan sy'n gyfoethog mewn hanes a threftadaeth' yw'r dylanwadau pwysicaf nesaf ar ddewis gwyliau domestig.
4. 'Dinasoedd a threfi mawr', 'arfordir a harbws golygfaol' a 'chyrchfannau glan môr traddodiadol' yw'r mathau o gyrchfannau y mae marchnad wyliau'r DU yn fwyaf tebygol o ymweld â nhw ar gyfer gwyliau byr/gwyliau yn y DU yn y 12 mis nesaf – mae bron i hanner yn bwriadu mynd ar drip i bob un. 'Trefi hanesyddol a threftadaeth' a 'chefn gwlad a phentrefi golygfaol' yw'r mathau nesaf o gyrchfannau mwyaf poblogaidd sy'n cael eu hystyried gan 2 o bob 5 o farchnad wyliau bresennol y DU.
5. Mae dewisiadau trip yn amrywio yn ôl cyfnod bywyd. Mae cyn-nythwyr ac Annibynwyr hyn yn nodi 'dinasoedd a threfi mawr' fel eu math cyrchfan dewisol; i deuluoedd, mae 'trefi glan môr traddodiadol' yn arwain y ffordd. Mae ymatebwyr sy'n 'ymddeolwyr' yn ffafrio 'arfordir a harbws golygfaol' a 'trefi hanesyddol a threftadaeth' yn fwy na chyfnodau bywyd eraill.
6. Mae'r mathau o brofiadau gwyliau a geisir gan farchnad ddomestig y DU yn tueddu i adlewyrchu'r cyrchfannau a ffafrir. Mae cyfnodau bywyd hyn yn tueddu i ffafrio hanes, treftadaeth, tirnodau enwog, golygfeydd a thirweddau, tra mai ymddeolwyr sy'n fwyaf tebygol o archwilio ardaloedd golygfaol mewn car.
7. Nid yw'n syndod mai teuluoedd sydd fwyaf tebygol o fod â diddordeb mewn 'ymweld ag atyniadau teuluol' yn ogystal â chwilio am 'lawer o weithgareddau a phethau i'w gwneud' gan gynnwys atyniadau awyr agored a safleoedd treftadaeth.
8. Mae 'rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol', 'profiadau iechyd neu lles' a 'siopa arbenigol' o ddiddordeb cymharol uchel i gyn-nythwyr.

Canfyddiadau allweddol (3)

Perthynas Cyrchfan a Thripiâu i Gymru yn 2022

1. Gorllewin Lloegr ac Arfordir De Lloegr yw'r ardaloedd o'r DU sydd fwyaf tebygol o gynhyrchu gwyliau rheolaidd neu wyliau byr, ac mae Cymru yn gymharol agos ar ei hôl hi yn drydydd.
2. Preswylwyr o Gymru sy'n arddangos y 'teyrngarwch' uchaf i Gymru o ran tripiâu, gyda hanner ohonynt 'yn aml yn cymryd gwyliau byr neu wyliau yno ac yn bwriadu gwneud hynny yn y flwyddyn nesaf'. Mae agosrwydd at Gymru yn sbardun cryf i ymweliadau rheolaidd – y tu ôl i Gymru, mae'r rhanbarthau cyfagos yng Ngogledd Orllewin Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr a De-orllewin Lloegr yn arddangos y lefel gryfaf o ymweliadau mynych â Chymru.
3. Y tu hwnt i'r ardaloedd craidd hyn, mae diddordeb posibl gan ymwelwyr am y tro cyntaf neu'n llai aml o Lundain/De-ddwyrain Lloegr, Dwyrain Lloegr a Swydd Efrog a Glannau Humber.
4. Yn ôl cyfnod bywyd, teuluoedd sydd fwyaf tebygol o fod yn ymwelwyr 'rheolaidd' â Chymru . Annibynwyr hŷn ac Ymddeolwyr yw'r grwpiau oedran sydd fwyaf tebygol o fod wedi ymweld â Chymru unwaith neu ddwy, gyda'r awydd i wneud hynny eto. Cyn-nythwyr sydd fwyaf tebygol o ddweud nad ydyn nhw erioed wedi bod ond 'hoffen nhw'.
5. Dywedodd 18% o farchnad wyliau'r DU eu bod wedi ymweld â Chymru am wyliau byr dros nos neu wyliau yn 2022.
6. Teuluoedd oedd fwyaf tebygol o fod wedi mynd ar drip i Gymru yn 2022. Roedd ymddeolwyr ac Annibynwyr hŷn yn llai tebygol o ymweld â Chymru yn 2022, ond roedd mwy o ymweliadau ganddynt mewn blynyddoedd blaenorol – sy'n dangos bod cyfle i 'ailysgogi' tripiâu i Gymru o'r cyfnodau bywyd hyn.
7. Daeth mwy o ymwelwyr i Gymru ym mis Mehefin ac Awst 2022 o gymharu â misoedd eraill y flwyddyn, er nad yw'n syndod bod hyn yn amrywio yn ôl cyfnod bywyd. Roedd lefelau ymweliadau yn sylweddol uwch ar gyfer y Gwanwyn nag ar gyfer Hydref a Gaeaf 2022.
8. Arhosodd ymwelwyr dros nos â Chymru mewn amrywiaeth o fathau gwahanol o gyrchfannau yn 2022. Aeth ychydig dros chwarter i 'arfordir neu harbwr golygfaol', gydag 1 o bob 4 yn aros yn y 'mynyddoedd neu fryniau', 'cyrchfan glan môr traddodiadol' neu 'cefn gwlad/pentref golygfaol'. Roedd tripiâu i ddinasoedd a threfi yn sylweddol is, cyfle i Gymru dyfu gan fod ganddynt y lefel uchaf o ddiddordeb ymhlith y rhai sy'n ystyried tripiâu yn y DU.
9. Gogledd Cymru oedd y rhanbarth yr ymwelwyd ag ef fwyaf yn 2022 gan ymatebwyr i'r arolwg hwn, a De-orllewin Cymru oedd yr ail ranbarth yr ymwelwyd ag ef fwyaf.

Canfyddiadau allweddol (4)

Ymweliadau â Chymru yn y 12 mis nesaf (*tripiau nesaf*)

1. Mae chwarter 'marchnad wyliau'r DU' (ymatebwyr i'r ymchwil hwn) ar hyn o bryd yn nodi eu bod naill ai 'wedi archebu lle' neu 'yn bendant yn ymweld â' Cymru am wyliau/gwyliau byr yn 2023, gydag 1 o bob 4 arall yn nodi y byddant yn 'ymweld yn ôl pob tebyg'. Ar adeg yr arolwg, roedd lleiafrif o'r rhain 'eisoes wedi archebu' eu trip. Mae ymchwil blaenorol yn dangos na fydd pawb sy'n dweud eu bod yn bwriadu ymweld yn gwneud hynny.
2. Mae teuluoedd yn fwy tebygol o nodi y byddant yn ymweld â Chymru am dri dros nos yn 2023. Mae bwriadau tripiâu hefyd yn uwch ar gyfer Cyn-nythwyr o gymharu ag Annibynwyr Hŷn a rhai o oedran ymddeol. Fodd bynnag, mae cyn-nythwyr hefyd yn llai tebygol o adrodd y byddant yn cymryd gwyliau byr neu wyliau i Gymru o fewn y flwyddyn nesaf na chyfnodau bywyd eraill.
3. Preswylwyr o Gymru sy'n dangos y tebygolrwydd cryfaf o gymryd gwyliau byr neu wyliau yng Nghymru yn 2023. Fodd bynnag, preswylwyr o Ogledd Orllewin Lloegr sydd fwyaf tebygol o fod 'eisoes wedi archebu', ac yna rhanbarthau cyfagos eraill De-orllewin Lloegr a gorllewin canolbarth Lloegr.
4. Mae bwriadwyr tripiâu yng Nghymru yn fwyaf tebygol o fod yn cynllunio eu trip nesaf i Gymru ym mis Gorffennaf neu Awst 2023. Mae bwriadau tripiâu yn uwch ar gyfer Mai a Mehefin o gymharu â Medi a Hydref, ond bydd hyn yn rhannol adlewyrchu amseriad yr arolwg gan y gofynnwyd i ymatebwyr am amseriad eu trip nesaf i Gymru.
5. Mae ychydig dros draean o fwriadwyr i Gymru yn bwriadu aros am benwythnos hir yng Nghymru ar eu trip nesaf (a yrrir gan gyn-nythwyr a theuluoedd), gyda bron i chwarter yn anelu at fynd ar dri dros sy'n cynnwys dyddiau'r wythnos a dyddiau penwythnos (a yrrir gan ymddeolwyr).
6. Mae bron i 3 o bob 5 o fwriadwyr yn bwriadu ymweld â Chymru gyda'u partner ar eu trip nesaf a 2 o bob 5 gyda'u plant/wyrion. Bydd ffrindiau yn mynd gyda phobl ar 1 mewn 6 trip ac anifeiliaid anwes ar 1 mewn 10 trip.
7. Mae amrywiaeth o gyrchfannau yn cael eu hystyried ar gyfer tripiâu i Gymru yn 2023, yn debyg i batrwm ymweliadau 2022, ond mae diddordeb mewn ymweld â threfi hanesyddol ychydig yn uwch, tra bod bwriadau i ymweld â dinasoedd neu drefi mawr yn parhau i fod yn is na chyrchfannau gwledig.
8. 'Cerdded a heicio' yw'r prif weithgaredd sydd wedi'i gynllunio ar gyfer tripiâu nesaf yng Nghymru yn 2023, wedi'i ddilyn yn agos gan 'roi cynnig ar fwyd a diod lleol', 'ymweld ag atyniadau awyr agored i ymwelwyr', 'ymweld ag atyniadau treftadaeth neu ddiwylliannol' ac archwilio ardaloedd golygfaol mewn car.' Mae'r diddordebau hyn yn amrywio yn ôl cyfnod bywyd.
9. Mae diddordeb cyffredinol cryf mewn gwyliau/digwyddiadau yng Nghymru ymhlith darparwyr Cymru 2023 – 'bwyd a diod', 'cynnyrch lleol/celf/crefft', 'cerdded/beicio anghystadleuol', 'sioeau gwledig/gardd' a gwyliau diwylliannol/celfyddydol yn ennyn y diddordeb cryfaf.

Canfyddiadau allweddol (5)

Rhwystrau rhag cymryd gwyliau byr neu wyliau yng Nghymru yn 2023

1. Y ddau brif reswm dros beidio ag ymweld â Chymru yn 2023 yw 'rhy bell i deithio' a 'torri'n ôl ar dripiâu yn y DU'.
2. O gymharu â 2022, mae ymwelwyr o'r tu allan i Gymru yn 2023 yn fwy tebygol o nodi 'na allant fforddio trip i Gymru' a'u bod yn hytrach yn 'cymryd gwyliau tramor', gan danlinellu apêl gynyddol tripiâu tramor o gymharu ag yn syth ar ôl y pandemig.
3. Mae'r argyfwng costau byw yn debygol o gael dylanwad eang ar dripiâu a gymerwyd yng Nghymru yn 2023, gyda 3 o bob 4 ymwelydd posibl yn nodi rhywfaint o newid yn eu cynlluniau gwyliau i helpu i reoli costau. Y prif newidiadau mewn ymddygiad yr adroddwyd amdanynt yw 'Byddaf yn dewis llety rhatach', 'Byddaf yn edrych am fwy o bethau am ddim i'w gwneud' a 'Byddaf yn edrych am gynigion/bargeinion arbennig', a gall bron i 2 o bob 10 hefyd dorri'n ôl ar wariant ar fwyta allan neu siopa yn ystod eu trip.

Apêl Llwybrau/Trywyddau

1. Byddai gan bron i dri chwarter marchnad y DU ddiddordeb mewn dilyn llwybr pellter hir o amgylch Cymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, gyda 'llwybrau cerdded/heicio' a 'llwybrau hunan-yrru' yn cael eu ffafrio fwyaf. Cyn-nythwyr a 'theuluoedd' sy'n tueddu i ddangos y diddordeb mwyaf mewn llwybrau hir, gan awgrymu y byddai menter o'r fath yn ffordd effeithiol o ddenu cynulleidfaoedd iau newydd.
2. 'Cerdded/ heicio', 'natur a bywyd gwyllt' a 'safleoedd treftadaeth' yw'r llwybrau 'diddordeb arbennig' mwyaf apelgar er bod amrywiaeth yn ôl cyfnod bywyd.
3. 'Bwyd, diod a chwilota' a 'llwybrau cerdded' sydd â'r apêl uchaf i gyn-nythwyr, tra bod gan 'safleoedd treftadaeth', 'llwybrau hunan-yrru', 'teithiau golygfaol', a 'gerddi' fwy o ddiddordeb i gyfnodau bywyd hŷn. Mae gan deuluoedd ddiddordeb mwyaf mewn llwybrau sy'n seiliedig ar 'natur a bywyd gwyllt', 'cerdded', 'bwyd a diod' a 'safleoedd treftadaeth'.
4. Dau i dri diwrnod yw'r hyd a ffafrir ar gyfer llwybr twristiaeth neu lwybr yng Nghymru gyda 4-7 diwrnod hefyd yn boblogaidd.

Canfyddiadau allweddol (6)

Effaith Marchnata Twristiaeth

1. Yn gyffredinol, ymatebwyr i'r arolwg sydd fwyaf tebygol o nodi eu bod wedi clywed am yr un lefel neu lefel is o hyrwyddo Cymru fel lle i ymweld ag ef yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf.
2. Hysbysebu ar lafar ac ar y teledu yw'r prif ffynonellau gwybodaeth y mae ymatebwyr wedi'u gweld, gyda thua 1 o bob 4 yn dweud eu bod yn bendant wedi gweld un o ffilmiau hyrwyddo Croeso Cymru yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf.
3. Mae tua 2 o bob 5 yn adrodd eu bod wedi ymgysylltu â sianeli digidol Croeso Cymru ar ryw ffurf yn ystod y 12 mis diwethaf, 'gydag ymweld â gwefan Croeso Cymru' a 'dilyn tudalen Facebook Croeso Cymru' y prif ffyrdd o wneud hynny.
4. Roedd y canfyddiadau o ffilmiau hyrwyddo Croeso Cymru a ddangoswyd i ymatebwyr yr arolwg yn gadarnhaol, gyda mwyafrif cryf yn cytuno eu bod yn 'peintio Cymru mewn golau cadarnhaol iawn', 'yn gwneud i Gymru edrych yn ddeniadol iawn am wyliau neu wyliau byr' ac 'yn gwneud i bobl fod yn fwy tebygol o ystyried Cymru am wyliau neu wyliau byr'.
5. Canfuwyd bod y ffilmiau hyrwyddo yn fwyaf cadarnhaol yn cyfleu golygfeydd anhygoel, llawer o weithgareddau a phethau i'w gwneud a lleoedd gwyd i archwilio oddi ar y llwybr sathredig. Roeddent yn llai cysylltiedig â gwerth gwyd am arian, llety o ansawdd uchel, croesawu pobl a bwyd a diod, sy'n ffactorau pwysig sy'n ysgogi dewis gwyliau.

Ymgysylltiad â Chwpan Pêl-droed y Byd

1. Dywedodd 2 o bob 3 o bobl eu bod wedi gweld rhyw fath o sylw yn y cyfryngau i Gymru yn ystod Cwpan Pêl-droed y Byd.
2. Gwylio gêm Cymru oedd y brif ffynhonnell ymgysylltu, ac yna sylw yn y cyfryngau i dîm neu gefnogwyr Cymru yn y twrnamaint.
3. Dywedodd dros 1 o bob 10 eu bod wedi gweld ffilm hyrwyddo neu fath arall o hysbysebu ar gyfer Cymru mewn perthynas â'r twrnamaint.
4. Roedd preswylwyr o Gymru a phobl â chysylltiad â Chymru heblaw cenedligrwydd yn fwy tebygol o fod wedi gweld yr holl sylw i Gymru yn ystod y twrnamaint.
5. Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr a welodd ryw fath o ddarllediadau o Gymru yn ystod Cwpan y Byd ei fod yn eu gwneud yn fwy cadarnhaol am Gymru.


Demograffeg y Farchnad Gwyliau Domestig




Rhyw a chyfnod bywyd y farchnad gwyliau domestig

- Mae rhaniad rhyw y farchnad gwyliau domestig (aelodau o gyhoedd y DU yn ystyried trip domestig dros nos yn y 12 mis nesaf) yn gymharol gyfartal, 'teuluoedd' yw'r cyfnod bywyd mwyaf. Cyn-nythwyr yw'r cyfnod bywyd lleiaf o bell ffordd yn y farchnad gwyliau domestig, sef 13% yn unig, gyda'r rhai o 'oedran ymddeol' yn cyfrif am 23%.

Ffigur 1. Rhyw yr ymatebwyr (wedi'i bwysoli), Canran, Yr holl ymatebwyr




Ffigur 2. Cyfnod bywyd yr ymatebwyr, Canran, Yr holl ymatebwyr




Statws cyflogaeth a gradd gymdeithasol y farchnad gwyliau domestig

- Mae tua hanner (46%) y farchnad gwyliau domestig mewn cyflogaeth amser llawn, mae tua 1 o bob 5 (21%) wedi ymddeol.
- Mae mwyafrif (62%) y farchnad gwyliau domestig yn perthyn i raddau cymdeithasol ABC1.

Ffigur 3. Statws cyflogaeth ymatebwyr, Canran, Yr holl ymatebwyr



Ffigur 4. Gradd gymdeithasol yr ymatebwyr (wedi'i bwysoli), Canran, Yr holl ymatebwyr




X3a Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau? X4a. Pa un o'r rhain sy'n disgrifio orau swydd y prif enillydd incwm yn eich cartref? X4b. Rydych yn dweud bod y prif enillydd incwm ar yr aelwyd bellach wedi ymddeol. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eu galwedigaeth cyn iddynt ymddeol?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1,136

Agwedd at 'argyfwng costau byw' yn gyffredinol ac yn ôl gradd gymdeithasol

- Mae dwy ran o dair (66%) o'r farchnad gwyliau domestig naill ai wedi cael eu 'taro'n galed' gan yr argyfwng costau byw hyd yn hyn, neu 'yn iawn ond rhaid bod yn ofalus'. Dim ond traean (33%) sy'n credu na fyddant yn cael eu heffeithio'n negyddol.
- Graddau Cymdeithasol AB sy'n cael eu heffeithio leiaf - 44% naill ai 'yn well eu byd nag o'r blaen' neu ddim yn cael eu heffeithio ac yn hyderus na fyddant yn cael eu heffeithio, mae'n ymddangos mai Graddau Cymdeithasol DE sy'n cael yr effaith fwyaf negyddol - 37% wedi'u 'taro'n galed' o gymharu ag 20% ar draws y farchnad gwyliau domestig gyfan.

Ffigur 5. Effaith yr argyfwng costau byw hyd yn hyn, Canran, Yr holl ymatebwyr ac yn ôl gradd gymdeithasol




X4c. Mae llawer o sôn wedi bod am sut mae'r 'argyfwng costau byw' wedi effeithio ar amgylchiadau ariannol pobl. Pe bai'n rhaid i chi ddewis, pa UN o'r datganiadau canlynol fyddai'n disgrifio orau eich teimladau am eich sefyllfa eich hun, ar hyn o bryd? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1,136; Gradd Gymdeithasol AB n=366; C1 n=315; C2 n=229; DE n=221


Rhanbarth preswyllo a pherthynas â Chymru

- Mae rhanbarth preswyllo'r farchnad gwyliau domestig yn atgynhyrchu'n fras boblogaeth y DU, gyda 'De-ddwyrain Lloegr', 'Llundain/Llundain Fwyaf' a 'Gogledd Orllewin Lloegr', â'r gynrychiolaeth uchaf.
- Mae gan tua 3 o bob 10 (37%) ryw fath o gysylltiadau presennol â Chymru – 'gyda theulu a ffrindiau sy'n byw yno', y mwyaf amlwg (17% yn disgyn i'r categori hwn).

Ffigur 6. Rhanbarth tarddiad yr ymatebwyr (wedi'i bwysoli), Canran, Yr holl ymatebwyr



Ffigur 7. Perthynas â Chymru, Canran, Yr holl ymatebwyr




Dylanwadau a Dewisiadau Tripiau



Mathau o gyrchfan yr ystyrir o ddifrif ar gyfer trip dros nos yn y DU

- ‘Dinasoedd a threfi mawr’, ‘arfordir a harbwsr golygfaol’ a ‘chyrchfannau glan môr traddodiadol’ yw’r mathau o gyrchfannau lle mae’r farchnad gwyliau domestig yn fwyaf tebygol o fod yn ‘ystyried o ddifrif’ gwyliau/gwyliau byr yn y DU yn y 12 mis nesaf. Mae ‘treff hanesyddol neu dreftadaeth’ a ‘chefn gwlad a phentrefi golygfaol’ hefyd yn creu ystyriaeth ddifrifol o tua 2 o bob 5.

Ffigur 8. Mathau o gyrchfannau yr ystyrir o ddifrif ar gyfer gwyliau/gwyliau byr yn y DU yn y 12 mis nesaf, Canran, Yr holl ymatebwyr




B1. Mae'r delweddau isod yn cynrychioli gwahanol fathau o gyrchfannau y mae pobl yn ymweld â nhw. I ba rai, os o gwbl, o'r rhain yr ydych chi o ddifrif yn ystyried cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU yn ystod y 12 mis nesaf?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1,136

Mathau o gyrchfannau yr ystyrir o ddifrif – yn ôl cyfnod bywyd

- Mae rhywfaint o amrywiaeth yn y math o gyrchfan a ffafrir yn ôl cyfnod bywyd. Ar gyfer Cyn-nythwyr ac Annibynwyr hÿn, ‘dinasoedd a threfi mawr’ yw’r math mwyaf poblogaidd o gyrchfannau; i deuluoedd, mae ‘treffi glan môr traddodiadol’ yn arwain y ffordd. Mae ymatebwyr o oedran ymddeol yn ffafrio ‘arfordir a harbwsr golygfaol’ yn fwy na chyfnodau bywyd eraill. Mae mwy o apêl i ‘drefi hanesyddol a threftadaeth’ ac ‘arfordir a harbwsr golygfaol’ ymhlith Annibynwyr hÿn ac ymddeolwyr. Mae pentrefi/canolfannau gwyliau a gwestai cyrchfannau mawr yn fwy tebygol o apelio at deuluoedd a chyn-nythwyr nag at grwpiau cyfnod bywyd eraill.
- Mae gwyliau teithiol yn llai poblogaidd ymhlith pob cyfnod bywyd.

Ffigur 9. Mathau o gyrchfannau yr ystyrir o ddifrif ar gyfer gwyliau/gwyliau byr yn y DU yn y 12 mis nesaf, Canran, Yr holl ymatebwyr




B1. Mae'r delweddau isod yn cynrychioli gwahanol fathau o gyrchfannau y mae pobl yn ymweld â nhw. I ba rai, os o gwbl, o'r rhain yr ydych chi o ddifrif yn ystyried cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU yn ystod y 12 mis nesaf? Sylfaen: Cyn-nythwyr n=186; Teuluoedd n=416; Annibynwyr Hÿn n=312; Ymddeolwyr n=222

Dylanwadau cyrchfan ar gyfer trip dros nos yn y DU

- ‘Gwerth gwyh am arian’ yw’r prif ddylanwad cyrchfan ar gyfer gwyliau/gwyliau byr yn y DU, ac yna ‘mae’n hawdd ei gyrraedd a symud o gwmpas’. Y tu hwnt i’r ffactorau ymarferol hyn, ‘golygfeydd a thirweddau anhygoel’ a ‘llety o ansawdd uchel’ yw’r dylanwadau pwysicaf nesaf. Mae ‘tirnodau ac atyniadau ymwelwyr enwog’ a ‘chyrchfan sy’n gyfoethog mewn hanes a threftadaeth’ hefyd yn ddylanwadol.
- Yn nodedig, mae ‘gwerth am arian’ yn bwysig ar gyfer pob gradd gymdeithasol ond yn fwy o ddylanwad ar gyfer graddau cymdeithasol is DE. Cyfeiriodd 59% o’r rhai yng ngradd gymdeithasol DE at ‘Gwerth gwyh am arian’ fel dylanwad cyrchfan, o gymharu â 53% o C2 a 52% o C1 ac AB yr un.

Ffigur 10. Dylanwadau cyrchfan ar gyfer gwyliau/gwyliau byr yn y DU, Canran, 10 Uchaf, Yr holl ymatebwyr




B2. Isod mae rhestr o'r dylanwadau y mae pobl wedi'u rhoi ar gyfer dewis eu cyrchfannau gwyliau a gwyliau byr. Pa rai, os o gwbl, sydd fwyaf dylanwadol wrth feddwl am ddewis gwyliau neu wyliau byr yn y DU?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1,136

Dylanwadau cyrchfan ar gyfer trip dros nos yn y DU – yn ôl cyfnod bywyd

- ‘Gwerth gwyh am arian’ ac ‘mae’n hawdd teithio iddo a symud o gwmpas’ yw’r ddau brif ddylanwad ar gyrchfannau ar gyfer pob cyfnod bywyd, ond yn arbennig ar gyfer annibynwyr hŷn ac ymddeolwyr sy’n mynegeio uchaf ar y rhan fwyaf o’r prif ddylanwadau. Mae cyn-nythwyr a theuluoedd hefyd yn cael eu dylanwadu’n fawr gan ‘lawer o weithgareddau a phethau i’w gwneud’, tra bod ‘golygfeydd a thirweddau anhygoel’ yn dylanwadu mwy ar annibynwyr hŷn ac ymddeolwyr. Mae cyfnodau bywyd hŷn annibynwyr hŷn ac ymddeolwyr hefyd yn tueddu i ffafrio ‘hanes a threftadaeth’, ‘tirnodau enwog ac atyniadau i ymwelwyr’, ‘mannau tawel heb dorfeydd’, a ‘rhywle y gallwch chi ymweld ag ef drwy gydol y flwyddyn’.

Ffigur 11. Dylanwadau cyrchfan ar gyfer gwyliau/gwyliau byr yn y DU yn ôl cyfnod bywyd, Canran, 10 Uchaf, Yr holl ymatebwyr




B2. Isod mae rhestr o'r dylanwadau y mae pobl wedi'u rhoi ar gyfer dewis eu cyrchfannau gwyliau a gwyliau byr. Pa rai, os o gwbl, sydd fwyaf dylanwadol wrth feddwl am ddewis gwyliau neu wyliau byr yn y DU? Sylfaen: Cyn-nythwyr n=186; Teuluoedd n=416; Annibynwyr Hŷn n=312; Ymddeolwyr n=222

Dylanwadau cyrchfan ar gyfer trip dros nos yn y DU

- Mae ystod o ddylanwadau cyrchfannau eraill hefyd yn bwysig, er bod 'cyrchfan ecogyfeillgar', 'sîn diwylliant ac adloniant ffyniannus' a 'chfleoedd i gwrdd a chymdeithasu' ar waelod y rhestr.

Ffigur 12. Dylanwadau cyrchfan ar gyfer gwyliau/gwyliau byr yn y DU, Canran, Yr 8 isaf, Yr holl ymatebwyr




B2. Isod mae rhestr o'r dylanwadau y mae pobl wedi'u rhoi ar gyfer dewis eu cyrchfannau gwyliau a gwyliau byr. Pa rai, os o gwbl, sydd fwyaf dylanwadol wrth feddwl am ddewis gwyliau neu wyliau byr yn y DU?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1,136

Dylanwadau cyrchfan ar gyfer trip dros nos yn y DU – yn ôl cyfnod bywyd

- Mae ymddeolwyr ac annibynwyr hŷn yn gweld ystod o ddylanwadau yn bwysicach na chyfnodau bywyd eraill, gan gynnwys 'pobl sy'n groesawgar iawn' a 'lleoedd sy'n enwog am eu bwyd a'u diod'.
- Mae rhai dylanwadau'n mynegeo'n uwch ar gyfer cyfnodau bywyd iau, yn arbennig 'cyfleoedd i archwilio fy hobïau a diddordebau', 'diwylliant ffyniannus ac adloniant', a 'chfleoedd i gwrdd a chymdeithasu â phobl eraill' – pob un ar ei uchaf ymhlith y cyn-nythwyr ac isaf ymhlith ymddeolwyr.

Ffigur 13. Dylanwadau cyrchfan ar gyfer gwyliau/gwyliau byr yn y DU yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Yr 8 isaf, Yr holl ymatebwyr




B2. Isod mae rhestr o'r dylanwadau y mae pobl wedi'u rhoi ar gyfer dewis eu cyrchfannau gwyliau a gwyliau byr. Pa rai, os o gwbl, sydd fwyaf dylanwadol wrth feddwl am ddewis gwyliau neu wyliau byr yn y DU?
 Sylfaen: Cyn-nythwyr n=186; Teuluoedd n=416; Annibynwyr Hŷn n=312; Ymddeolwyr n=222

Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf ar wyliau/gwyliau byr yn y DU

- O ran profiadau, 'ymweld ag atyniadau awyr agored i ymwelwyr' yw'r hyn yr hoffai'r farchnad gwyliau domestig ei wneud fwyaf, wedi'i ddilyn gan 'roi cynnig ar fwyd a diod lleol' ac 'ymweld â safleoedd treftadaeth neu atyniadau diwylliannol'. Mae 'cerdded, heicio neu grwydro' hefyd yn cyrraedd y pedwar uchaf. Mae gan tua 1 o bob 3 ddiddordeb hefyd mewn 'ymweld â ffrindiau neu berthnasau', 'archwilio ardaloedd golygfaol mewn car' a 'hanes a diwylliant lleol'.

Ffigur 14. Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf ar wyliau/gwyliau byr yn y DU, Canran, 12 Uchaf, Yr holl ymatebwyr



B3. A pha rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o brofiadau yr hoffech chi eu gwneud fwyaf ar wyliau neu wyliau byr yn y DU


ac Iwerddon yn y 12 mis nesaf?

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1,136

Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf - yn ôl cyfnod bywyd

- Mae rhai gwahaniaethau yn y prif brofiadau a ffafrir yn ôl cyfnod bywyd. Mae ffafriaeth gyffredinol ar gyfer 'ymweld ag atyniadau awyr agored' yn cael ei ysgogi gan annibynwyr hŷn ac ymddeolwyr, sydd hefyd yn fwyaf tebygol o fod eisiau ymweld â 'safleoedd treftadaeth' a 'dysgu am hanes a diwylliant lleol'. Nid yw'n syndod mai teuluoedd sydd fwyaf tebygol o fod â diddordeb mewn 'ymweld ag atyniadau teuluol'. Er eu bod o ddiddordeb cyfyngedig yn gyffredinol, mae 'profiadau iechyd neu les' a 'siopa arbenigol' o ddiddordeb cymharol uchel i gyn-nythwyr. Ymddeolwyr sydd fwyaf tebygol o archwilio mannau golygfaol mewn car, ac maent yn fwy tebygol na'r grwpiau eraill o fod â diddordeb mewn 'archwilio ardaloedd golygfaol mewn car'.

Ffigur 15. Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf ar wyliau/gwyliau byr yn y DU yn ôl cyfnod bywyd, Canran, 12 Uchaf, Yr holl ymatebwyr




B3. A pha rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o brofiadau yr hoffech chi eu gwneud fwyaf ar wyliau neu wyliau byr yn y DU ac Iwerddon yn y 12 mis nesaf?

Sylfaen: Cyn-nythwyr n=186; Teuluoedd n=416; Annibynwyr Hŷn n=312; Ymddeolwyr n=222

Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf ar wyliau/gwyliau byr yn y DU

- Mae amrywiaeth o weithgareddau eraill yn apelio at gynulleidfa fwy arbenigol. Er enghraifft, mae ymweld â lleoliadau sy'n cael sylw mewn 'teledu, ffilm neu lenyddiaeth', 'dathliadau tymhorol', a 'phrofiadau bywyd nos' yn debygol o gael eu cynnal gan 16% o ymgymeryddwyr gwyliau yn y DU.
- Gweithgareddau fel 'golff', 'pysgota' a 'chadwraeth neu wirfoddoli' sydd leiaf tebygol o fod yn brofiadau a ffafrir ar wyliau neu wyliau byr yn y DU.

Ffigur 16. Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf ar wyliau/gwyliau byr yn y DU, Canran, Yr 11 isaf, Yr holl ymatebwyr



B3. A pha rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o brofiadau yr hoffech chi eu gwneud fwyaf ar wyliau neu wyliau byr yn y DU


ac Iwerddon yn y 12 mis nesaf?

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1,136

Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf - yn ôl cyfnod bywyd

- Ymhlith gweithgareddau arbenigol, mae cyn-nythwyr a theuluoedd yn mynegeoio'n gymharol uchel ar 'brofiadau egnïol' megis 'gweithgareddau antur', 'chwaraeon dŵr', a 'beicio neu feicio mynydd'. Mae cyn-nythwyr yn sefyll allan gan mai nhw yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod â diddordeb mewn 'profi'r bywyd nos' a 'gweithgareddau creadigol neu artistig'.

Ffigur 17. Profiadau yr hoffid eu gwneud fwyaf ar wyliau/gwyliau byr yn y DU yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Yr 11 isaf, Yr holl ymatebwyr



B3. A pha rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o brofiadau yr hoffech chi eu gwneud fwyaf ar wyliau neu wyliau byr yn y DU ac Iwerddon yn y 12 mis nesaf?

Sylfaen: Cyn-nythwyr n=186; Teuluoedd n=416; Annibynwyr Hŷn n=312; Ymddeolwyr n=222

Perthynas Cyrchfan ac Ymweliadau Blaenorol




Teyrngarwch i Gymru a chyrchfannau eraill

- Gorllewin Lloegr ac Arfordir De Lloegr yw'r ardaloedd yn y DU sydd fwyaf tebygol o gynhyrchu gwyliau rheolaidd neu wyliau byr, gyda thua thraean yn mynd yno'n aml/weithiau. Cymru yw'r trydydd mwyaf tebygol o wneud hynny.
- Nid yw 27% erioed wedi cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru o'r blaen ond hoffai'r rhan fwyaf o'r rhain (16%) ymweld. Dim ond lleiafrif (18%) na fyddai'n ystyried ymweld â Chymru yn y dyfodol.

Ffigur 18. Perthynas â phob cyrchfan, Canran, Yr holl ymatebwyr

- Rwy'n aml yn cael seibiannau byr neu wyliau yno ac yn bwriadu gwneud hynny eto o fewn y flwyddyn nesaf
- Rwyf weithiau'n cael seibiannau byr neu wyliau yno ac yn bwriadu gwneud hynny eto o fewn y ddwy flynedd nesaf
- Rwyf wedi cael seibiant byr neu wyliau yno unwaith neu ddwy o'r blaen ac efallai y gwnaf hynny eto
- Rwyf wedi cael seibiant byr neu wyliau yno o'r blaen, ond mae'n annhebygol y gwnaf hynny eto
- Dydw i erioed wedi bod ar wyliau neu wyliau byr yno ond hoffwn i
- Nid wyf erioed wedi cael seibiant byr neu wyliau yno o'r blaen, ac nid yw'n debygol y gwnaf hynny eto
- Dydw i ddim yn gwybod




C1. Pa un o'r datganiadau canlynol sydd fwyaf perthnasol i chi o ran ymweld â'r cyrchfannau hyn?
 Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1,136

Teyrngarwch i Gymru yn ôl rhanbarth preswyllo

- Preswylwyr o Gymru sy'n arddangos y 'teyrngarwch' uchaf i Gymru o ran triplau, gyda hanner ohonynt 'yn aml yn cymryd gwyliau byr neu wyliau yno ac yn bwriadu gwneud hynny yn y flwyddyn nesaf'. Mae agosrwydd at Gymru yn sbardun cryf i ymweliadau rheolaidd – y tu ôl i Gymru, mae rhanbarthau cyfagos Gogledd Orllewin Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr a De-orllewin Lloegr yn arddangos y 'teyrngarwch' cryfaf i Gymru.

Ffigur 19. Perthynas â Chymru yn ôl rhanbarth preswyllo, Canran, Yr holl ymatebwyr



C1. Pa un o'r datganiadau canlynol sydd fwyaf perthnasol i chi o ran ymweld â'r cyrchfannau hyn?
 Sylfaen: Yr holl ymatebwyr. Cymru n=195; Gogledd Orllewin Lloegr n=109; Gorllewin Canolbarth n=99; De-orllewin Lloegr n=79; Llundain/De-ddwyrain Lloegr n=259; Dwyrain Anglia =98; Dwyrain Canolbarth Lloegr n=78; Swydd Efrog/Glannau Humber n=79; Gogledd-ddwyrain Lloegr n=40; Yr Alban n=80




Teyrngarwch i Gymru yn ôl cyfnod bywyd

- Teuluoedd sy'n adrodd bod y berthynas gryfaf â Chymru fel cyrchfan gwyliau neu wyliau byr – 40% yn cymryd gwyliau/gwyliau byr yno'n aml neu weithiau ac yn bwriadu gwneud hynny eto yn y flwyddyn neu ddwy nesaf.
- Nid yw bron i 2 o bob 5 (39%) o gyn-nythwyr erioed wedi ymweld â Chymru, a byddai ychydig llai na hanner y rhain (18%) yn ystyried gwneud hynny. Annibynwyr hŷn ac ymddeolwyr yw'r grwpiau oedran sydd fwyaf tebygol o fod wedi ymweld â Chymru unwaith neu ddwy, gyda'r awydd i wneud hynny eto.

Ffigur 20. Perthynas â Chymru yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Yr holl ymatebwyr

- Rwy'n aml yn cael seibiannau byr neu wyliau yno ac yn bwriadu gwneud hynny eto o fewn y flwyddyn nesaf
- Rwyf weithiau'n cael seibiannau byr neu wyliau yno ac yn bwriadu gwneud hynny eto o fewn y ddwy flynedd nesaf
- Rwyf wedi cael seibiant byr neu wyliau yno unwaith neu ddwy o'r blaen ac efallai y gwnaf hynny eto
- Rwyf wedi cael seibiant byr neu wyliau yno o'r blaen, ond mae'n annhebygol y gwnaf hynny eto
- Dydw i erioed wedi bod ar wyliau neu wyliau byr yno ond hoffwn i
- Nid wyf erioed wedi cael seibiant byr neu wyliau yno o'r blaen, ac nid yw'n debygol y gwnaf hynny eto
- Dydw i ddim yn gwybod




C1. Pa un o'r datganiadau canlynol sydd fwyaf perthnasol i chi o ran ymweld â'r cyrchfannau hyn?
 Sylfaen: Cyn-nythwyr n=186; Teuluoedd n=416; Annibynwyr Hŷn n=312; Ymddeolwyr n=222

Ymweliadau blaenorol â phob cyrchfan

- Dywedodd 18% o farchnad wyliau'r DU eu bod wedi ymweld â Chymru am wyliau byr dros nos neu wyliau yn 2022, y tu ôl i 'Arfordir De Lloegr' yn unig (20%) ac ychydig o flaen 'Gorllewin Lloegr' (17%).


Ffigur 21. Ymweliadau blaenorol â phob cyrchfan, Canran, Yr holl ymatebwyr



Ymweliadau blaenorol â Chymru fesul rhanbarth preswyllo

- Mae preswylwyr o Gymru yn fwyaf tebygol o fod wedi ymweld â Chymru ddiwethaf am wyliau/gwyliau byr rhwng 2022 a Ionawr 2023, ac yna ardaloedd daearyddol agos Gogledd Orllewin Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr.
- Preswylwyr Llundain/De-ddwyrain Lloegr, yr Alban a Gogledd-ddwyrain Lloegr sydd fwyaf tebygol o fod 'erioed wedi ymweld' â Chymru am wyliau/gwyliau byr.

Ffigur 22. Ymweliadau blaenorol â ChYMRU yn ôl rhanbarth preswyllo, Canran, Yr holl ymatebwyr



C2. Pryd wnaethoch chi ymweld â'r lleoedd hyn ddiwethaf am wyliau neu wyliau byr?

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr. Cymru n=187; Gogledd Orllewin Lloegr n=89; Gorllewin Canolbarth Lloegr n=86; Swydd Efrog n=54; Llundain/De-ddwyrain Lloegr n=164; De-orllewin Lloegr n=62; Yr Alban n=48; Dwyrain Canolbarth Lloegr n=61; Gogledd-ddwyrain Lloegr n=21*; Dwyrain Lloegr n=77


* Angen gofal, meintiau sylfaen isel



Ymweliadau blaenorol â Chymru fesul cam bywyd

- Yn unol â theyrngarwch cyffredinol i Gymru fel cyrchfan, teuluoedd yw'r cyfnod bywyd sydd fwyaf tebygol o fod wedi mynd ar drip yng Nghymru ers 2020, gyda mwy na 2 o bob 5 wedi gwneud hynny. O'u cymharu â theuluoedd, mae ymddeolwyr ac annibynwyr hŷn yn dangos lefel is o ymweliadau diweddar ond mwy o ymweliadau ar ryw adeg yn eu bywydau, sy'n cyd-fynd â gwyliau domestig is diweddar, sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae hyn yn awgrymu efallai y bydd angen 'ail-ysgogi' y cyfnodau bywyd hyn.

Ffigur 23. Ymweliadau blaenorol â CHYMRU fesul CAM BYWYD, Canran, Yr holl ymatebwyr



C2. Pryd wnaethoch chi ymweld â'r lleoedd hyn ddiwethaf am wyliau neu wyliau byr?
 Sylfaen: Cyn-nythwyr n=122; Teuluoedd n=326; Annibynwyr Hŷn n=237; Ymddeolwyr n=180


Ymweliadau â Chymru yn 2022



Cymru fel cyrchfan dewis cyntaf yn 2022

- Dywedodd dwy ran o dair o'r rhai a aeth ar drip yng Nghymru yn 2022 mai 'Cymru oedd ein cyrchfan dewis cyntaf', a nododd 21% fod Cymru 'yn cymryd lle trip dramor'.
- Yn nodedig, roedd cyn-nythwyr a theuluoedd yn llai tebygol nag annibynwyr hŷn ac ymddeolwyr o ddweud mai Cymru oedd eu dewis cyntaf, ac yn fwy tebygol o ddweud ei bod 'yn lle trip dramor'.

Ffigur 24. Cymru fel cyrchfan dewis cyntaf, Canran, Pob trip yng Nghymru yn 2022 ac yn ôl cyfnod bywyd




D4. Pa rai, os o gwbl, o'r datganiadau hyn sy'n fwyaf perthnasol i'ch trip yng Nghymru yn <NODWCH MIS>?
 Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1,136; Cyn-nythwyr n=86; Teuluoedd n=267; Annibynwyr Hŷn n=106; Ymddeolwyr n=57

Nifer y nosweithiau yng Nghymru fesul mis

- Ar draws y flwyddyn gyfan, roedd mwyafrif (57%) y tripiâu dros nos i Gymru yn 2022 yn wyliau byr o 1-3 noson, yn gyson ar gyfer pob mis o'r flwyddyn ac eithrio mis Awst, lle'r oedd tripiâu ychydig yn fwy tebygol o fod yn wyliau hirach.

Ffigur 25. Nifer y nosweithiau a arhoswyd ar drip yng Nghymru yn 2022, Canran, Yr holl ymgymerywyr tripiâu yng Nghymru yn 2022




D10. Ar y trip hwn i Gymru yn <NODWCH MIS>, am sawl noson wnaethoch chi aros dros nos?

Sylfaen: Yr holl ymgymerywyr tripiâu yng Nghymru 2022 n=516. Ionawr i Mawrth n=146; Ebrill n=88; Mai n=94; Mehefin n=106; Gorffennaf n=100; Awst n=102; Medi n=80; Hydref i Ragfyr n=95

Nifer y nosweithiau yng Nghymru yn ôl cyfnod bywyd

- Roedd cyn-nythwyr yn fwy tebygol na chyfnodau bywyd eraill o gymryd gwyliau byr o 1-3 noson – 70% o gymharu â chyfartaledd o 57%.

Ffigur 26. Nifer y nosweithiau a arhoswyd ar drip yng Nghymru yn 2022, Canran, Yr holl ymgymerywyr triapiau yng Nghymru yn 2022




D10. Ar y trip hwn i Gymru yn <NODWCH MIS>, am sawl noson wnaethoch chi aros dros nos?

Sylfaen: Yr holl ymgymerywyr triapiau yng Nghymru 2022 n=516. Cyn-nythwyr n=86; Teuluoedd n=267; Annibynwyr Hŷn n=106; Ymddeolwyr n=57

Cyfansoddiad parti ymgymmerwyr tripliau yng Nghymru 2022

- Ymwelwyr dros nos â Chymru oedd fwyaf tebygol o fod wedi ymweld â'u partner (65%), ac yna 'plant/wyresau' (47%), gyda'r olaf yn enwedig ym misoedd yr haf (59% ym mis Awst, 58% ym mis Gorffennaf a 57% ym mis Mehefin).
- Nid yw'n syndod bod mwyafrif helaeth y teuluoedd wedi mynd ar eu trip dros nos i Gymru gyda phlant neu wyrion, gyda 23% o ymddeolwyr hefyd yn gwneud hynny. Aeth 1 o bob 4 (27%) o gyn-nythwyr ar eu trip i Gymru gyda ffrindiau, ac aeth bron i 1 o bob 5 (19%) o gyn-nythwyr i Gymru gyda'u rhieni neu rieni eu partner. Cyn-nythwyr ac annibynwyr hŷn oedd fwyaf tebygol o fod wedi ymweld â Chymru ar eu pen eu hunain yn 2022.


Ffigur 27. Cyfansoddiad partiion ymwelwyr ar gyfer trip yng Nghymru yn 2022, Canran, Yr holl ymgymmerwyr tripliau yng Nghymru yn 2022



Misoedd triplau yng Nghymru yn 2022

- Roedd ymweliadau dros nos â Chymru ar eu huchaf yn ystod misoedd prysur yr haf rhwng Mehefin ac Awst, gan ostwng ychydig yn ystod 'misoedd llai prysur na'r cyfnodau brig' Ebrill, Mai a Medi – yn is rhwng Ionawr a Mawrth, a Hydref i Ragfyr.

Ffigur 28. Misoedd y cymerwyd trip i Gymru yn 2022, Canran, Holl ymgwymerwyr triplau yng Nghymru yn 2022




D3. Ac ym mha fisoedd o'r flwyddyn wnaethoch chi ymweld â Chymru am wyliau byr neu wyliau yn 2022?

Sylfaen: Holl ymgwymerwyr triplau yng Nghymru 2022 n=516

Misoedd y cymerwyd trip i Gymru yn 2022 – fesul cyfnod bywyd

- Roedd rhywfaint o amrywiaeth ym mis yr ymweliad â Chymru yn ôl cyfnod bywyd. Adroddodd cyn-nythwyr fod nifer cymharol gyfartal o ymweliadau rhwng mis Mawrth a mis Hydref, gyda'r uchaf ym mis Awst. Roedd ymweliadau teuluol ar eu huchaf yn ystod misoedd yr haf rhwng Mehefin ac Awst. Arhosodd annibynwyr hŷn – ac eithrio ymweliadau uchel iawn ym mis Mai – dros nos yng Nghymru yn gymharol gyfartal rhwng mis Ebrill a mis Medi. Mynegodd ymddeolwyr yn uchel ym mis Ebrill, Mehefin, Medi a Hydref, ond roeddent yn fwy tebygol o osgoi misoedd brig yr haf, sef Gorffennaf ac Awst.

Ffigur 29. Misoedd y cymerwyd trip i Gymru yn 2022 yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Yr holl ymgwymerwyr triapiau yng Nghymru yn 2022




D3. Ac ym mha fisoedd o'r flwyddyn wnaethoch chi ymweld â Chymru am wyliau byr neu wyliau yn 2022?
 Sylfaen: Yr holl ymgwymerwyr triapiau yng Nghymru 2022. Cyn-nythwyr n=86; Teuluoedd n=267; Annibynwyr Hŷn n=106;
 Ymddeolwyr n=57

Nifer y tripiâu yng Nghymru yn 2022

- Ar gyfartaledd, cymerodd ymwelwyr â Chymru 3.4 o dripiâu dros nos yn 2022, wedi'u rhannu'n gymharol gyfartal rhwng gwyliau byr a thripiâu hirach o 4+ noson.


Ffigur 30. Nifer cyfartalog y tripiâu yng Nghymru a gymerwyd yn 2022, Yr holl ymgwymerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022



Mathau o gyrchfannau yng Nghymru yn 2022

- Arhosodd ymwelwyr dros nos â Chymru mewn amrywiaeth o wahanol fathau o gyrchfannau yn 2022. Aeth ychydig dros chwarter i gyrchfan 'arfordir neu harbwr golygfaol', gydag 1 o bob 4 yn aros mewn lleoliad 'mynyddig neu fryniau' neu 'gyrchfan glan môr traddodiadol'. Aeth ychydig o dan 1 o bob 4 i gyrchfan 'gwledig cefn gwlad neu bentref' ac aeth tua 1 o bob 5 i 'dref hanesyddol neu dreftadaeth' neu ar 'wyliau teithiol'.
- Roedd yr ymatebwyr a ymwelodd â Chymru leiaf tebygol o ymweld â 'gwesty cyrchfan mawr' neu 'ddinas neu dref fawr'.

Ffigur 31. Mathau o gyrchfannau yn ystod y trip hwn yng Nghymru yn 2022, Canran, Yr holl ymgwymerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022




D5. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fath/au o gyrchfannau y buoch chi ynddo/ynddynt yn ystod y trip hwn yng Nghymru?

Sylfaen: Yr holl ymgwymerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022 n=516

Mathau o gyrchfannau yng Nghymru yn 2022 – yn ôl cyfnod bywyd

- Arhosodd ymwelwyr â Chymru o wahanol gyfnodau bywyd mewn ystod o wahanol fathau o gyrchfannau.
- Roedd cyn-nythwyr yn fwy tebygol o aros mewn lleoliadau ‘mynyddig neu fryniau’, mynd ar ‘wyliau teithiol’, neu aros mewn ‘dinas neu dref fawr’ na grwpiau eraill. Roedd mynegai teuluoedd yn uchel ar ‘bentrefi/canolfannau gwyliau’ a ‘gwestai cyrchfan fawr’ o gymharu â grwpiau eraill.
- Gan adlewyrchu eu dewis cyffredinol, mae’r mynegai mwyaf ar gyfer annibynwyr hŷn ac ymddeolwyr ar gyfer ‘cefn gwlad neu bentrefi golygfaol’, gydag ymddeolwyr yn arbennig o uchel mewn ymweliadau â ‘threfi hanesyddol neu dreftadaeth’ a ‘chyrchfannau glan môr traddodiadol’.

Ffigur 32. Mathau o gyrchfannau yn ystod y trip hwn yng Nghymru yn 2022 yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Yr holl ymgwymerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022




D5. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fath/au o gyrchfannau y buoch chi ynddo yn ystod y trip hwn yng Nghymru? Sylfaen: Yr holl ymgwymerwyr tripiâu yng Nghymru yn 2022. Cyn-nythwyr n=86; Teuluoedd n=267; Annibynwyr Hŷn n=106; Ymddeolwyr n=57

Dewisiadau cyrchfan yn y DU o gymharu ag ymweliadau â Chymru yn 2022

- O'i gymharu â'r dewis a ffefrir, cafodd Cymru nifer fawr o ymweliadau yn 2022 ag 'arfordirioedd a harbwrs golygfaol', 'cyrchfannau glan môr traddodiadol' a 'chefn gwlad a phentrefi golygfaol'. Cymharol isel oedd ymweliadau â chyrchfannau trefol fel 'dinasoedd a threfi mawr' a 'threfi hanesyddol a threftadaeth', o gymharu â dewisiadau defnyddwyr i ymweld â'r mathau hyn o gyrchfannau yn 2022.

Ffigur 33. Mathau o ymweliadau cyrchfan yng Nghymru yn 2022 yn erbyn math o gyrchfan yn y DU a ffefrir, Canran.





B1. Mae'r delweddau isod yn cynrychioli gwahanol fathau o gyrchfannau y mae pobl yn ymweld â nhw. I ba rai, os o gwbl, o'r rhain yr ydych chi o ddirif yn ystyried cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU yn ystod y 12 mis nesaf? D5. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fath/au o gyrchfannau y buoch chi ynddo/ynddwynt yn ystod y trip hwn yng Nghymru? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1,136

Cyrchfannau yr ymwelwyd â hwy yng Nghymru yn 2022

- Y tri chyrchfan yng Ngogledd Cymru oedd y rhannau o Gymru yr ymwelwyd â hwy fwyaf ar gyfer gwyliau/gwyliau byr yn 2022.
- Ymwelodd y mwyafrif o ymwelwyr dros nos Cymru â Gogledd Cymru, sef 62%, a hwn gafodd y mwyaf o ymweliadau o blith rhanbarthau Cymru ar gyfer pob cyfnod bywyd.

Ffigur 34. Cyrchfannau Cymru yr ymwelwyd â hwy ar drip yn 2022, Canran, Yr holl ymgymerywyr tripiâu yng Nghymru yn 2022



D6. Ble yng Nghymru wnaethoch chi aros dros nos ar y trip hwn?

Sylfaen: Yr holl ymgymerywyr tripiâu yng Nghymru 2022 n=516

Gogledd Cymru = Gogledd-ddwyrain Cymru, Llandudno a Bae Colwyn, Mynyddoedd ac Arfordir Eryri, Ynys Môn;


Canolbarth = Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog a Cheredigion; De-orllewin Cymru = Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a

Bae Abertawe; De-ddwyrain Cymru = Caerdydd, Cymoedd De Cymru, Arfordir Treftadaeth Morgannwg a Dyffryn Gwy.

Rhanbarthau cyrchfan yng Nghymru yn 2022

- Ynys Môn a gynhyrchodd y gyfran uchaf o ymwelwyr sy'n 'cymryd gwyliau neu wyliau byr yn aml', gyda 'Arfordir Treftadaeth a Chefn Gwlad Morgannwg', 'Gogledd-ddwyrain Cymru' a 'Chaerdydd' yn denu'r gyfran uchaf o bobl sy'n gwneud hynny am y tro cyntaf.

Ffigur 35. Perthynas â chyrchfannau unigol yng Nghymru, Canran, Yr holl ymgymmerwyr triplau yng Nghymru yn 2022



D7. Pa un o'r datganiadau canlynol sydd fwyaf perthnasol i chi a'ch gwyliau a'ch gwyliau byr i'r cyrchfannau hyn yng Nghymru? Sylfaen: Yr holl ymgymmerwyr triplau yng Nghymru yn 2022. Ynys Môn n=61; Llandudno a Bae Colwyn n=104; Gogledd-ddwyrain Cymru n=98; Mynyddoedd ac arfordir Eryri n=108; Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog n=71; Ceredigion n=69; Sir Benfro n=82; Sir Gaerfyrddin n=67; Bae Abertawe, Y Mwmbwls, Gŵyr, Afan a Chwm Nedd n=66; Caerdydd n=70; *Ni ddangosir cyrchfannau gyda meintiau sylfaen isel




Pobl nad ydynt yn ymwelwyr â Chymru yn 2022



Ystyriaeth cyrchfan ymhlith y rhai nad ydynt yn ymwelwyr

- O'r rhai na fu iddynt ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr yn 2022, ystyriodd 1 o bob 4 wneud hynny ar ryw adeg. Nid oedd dwy ran o dair yn ystyried Cymru ar unrhyw adeg. Y cyfnodau bywyd nad oeddent yn ymwelwyr oedd fwyaf tebygol o fod yn ystyried Cymru ar ryw adeg oedd 'cyn-nythwyr' a 'theuluoedd' – ymddeolwyr ac annibynwyr hŷn oedd lleiaf tebygol.

Ffigur 36. P'un a ystyriwyd trip yng Nghymru yn 2022, Canran, Yr holl ymatebwyr na chymerodd drip yng Nghymru yn 2022 ac yn ôl cyfnod bywyd




E1. Fe wnaethoch chi nodi na wnaethoch chi gymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn 2022. A oeddech chi'n ystyried trip yng Nghymru yn 2022 ar unrhyw adeg? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr na chymerodd drip yng Nghymru yn 2022 n=620 Cyn-nythwyr n=100; Teuluoedd n=149; Annibynwyr Hŷn n=206; Ymddeolwyr n=165

Ystyriaeth cyrchfan ymhlith y rhai nad ydynt yn ymwelwyr

- Aeth 3 o bob 5 (59%) o'r rhai nad oeddent yn ymweld â Chymru yn 2022 i rywle arall yn y DU yn lle hynny – aeth ychydig dros 1 o bob 5 (21%) dramor. Ni chymerodd 1 o bob 5 wyliau/gwyliau byr o gwbl. Cyfnodau bywyd iau oedd fwyaf tebygol o fod wedi dewis trip dramor, gydag ymddeolwyr yn fwyaf tebygol o fod wedi mynd i rywle arall yn Ynysoedd Prydain neu Iwerddon.

Ffigur 37. P'un a chymerwyd trip rywle arall yn 2022, Canran, Yr holl ymatebwyr na chymerodd drip i yng Nghymru yn 2022




E2. A aethoch chi i rywle arall am wyliau/gwyliau byr yn 2022 neu a wnaethoch chi ddim cymryd un o gwbl?
 Sylfaen: Yr holl ymatebwyr na chymerodd drip yng Nghymru yn 2022 n=620

Cyrchfan yr ymwelwyd â hi yn Ynysoedd Prydain/Iwerddon yn lle Cymru

- Arfordir De Lloegr, Gorllewin Lloegr a'r Alban yw'r rhannau o'r DU ac Iwerddon yr oedd y rhai nad oeddent yn ymweld â Chymru yn fwyaf tebygol o fod wedi ymweld am wyliau/gwyliau byr yn 2022.; yn hytrach, ymwelwyd ag Arfordir De Lloegr ac Ardal y Llynnoedd.

Ffigur 38. Rhanbarth cyrchfan triplau yn lle Cymru, Canran, Yr holl rai na chymerodd drip yng Nghymru yn 2022 ond a aeth i rywle arall yn Ynysoedd Prydain




E3. I ba rai o'r ardaloedd canlynol o Ynysoedd Prydain ac Iwerddon yr aethoch chi ar eich gwyliau/gwyliau byr yn 2022?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr na aeth ar drip yng Nghymru yn 2022 ac a aeth i rywle arall yn Ynysoedd Prydain n=359

Rhesymau dros beidio â mynd ar drip dros nos yng Nghymru yn 2022

- Y prif resymau dros beidio ag ymweld â Chymru am wyliau byr neu wyliau yn 2022 oedd 'rhy bell i deithio', 'torri'n ôl ar nifer y tripiâu a gymerwyd yn y DU', 'nerfus ynghylch teithio oherwydd COVID-19', ac 'amodau tywydd yng Nghymru'. Dewisodd 2 o bob 5 o'r ymatebwyr a nododd 'amodau tywydd' fynd dramor yn lle hynny – aeth y rhai a arhosodd yn y DU i Arfordir y De/Gorllewin Lloegr). Roedd gwahaniaethau cyfyngedig yn ôl cyfnod bywyd, er mai'r ymddeolwyr oedd y lleiaf tebygol o ddweud 'Allwn i ddim fforddio trip i Gymru' a chyn-nythwyr oedd fwyaf tebygol o nodi 'amgylchiadau personol (e.e. gwaith, teulu, ac ati)'.

Ffigur 39. Rhesymau pam na chymerwyd trip i Gymru yn 2022, Canran, Yr holl ymatebwyr na chymerodd drip yng Nghymru yn 2022



E4. Beth yw'r rhesymau pam na wnaethoch chi gymryd gwyliau neu wyliau yng Nghymru yn 2022?

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr na chymerodd drip yng Nghymru yn 2022 n=620



Llywodraeth Cymru
Welsh Government




Ymweliadau â Chymru yn 2023



Tripiau dros nos yng Nghymru a fwriedir yn 2023

- Mae chwarter ‘marchnad wyliau’r DU’ (ymatebwyr yn yr ymchwil hwn) naill ai ‘eisoes wedi archebu’ neu ‘yn bendant yn ymweld’ â Chymru ar gyfer gwyliau/gwyliau byr yn 2023 gydag 1 o bob 4 arall yn nodi y byddant yn ‘fwy na thebyg’ yn ymweld. Mae lleiafrif wedi ‘archebu’ eu trip yn barod.
- Mae teuluoedd yn fwy tebygol o nodi y byddant yn ymweld â Chymru am drip dros nos. Mae cyn-nythwyr hefyd yn dangos diddordeb cryf; annibynwyr hŷn ac ymddeolwyr sydd leiaf tebygol o nodi y byddant yn ymweld. Fodd bynnag, mae cyn-nythwyr hefyd yn llai tebygol o adrodd y byddant yn cymryd gwyliau byr neu wyliau i Gymru o fewn y flwyddyn nesaf na chyfnodau bywyd eraill, felly efallai nad ydynt yn troi o ‘yn ôl pob tebyg’ i ‘yn bendant’ cymaint â chyfnodau bywyd eraill – gweler sleid 35.

Ffigur 40. Tripiau yng Nghymru a fwriedir yn 2023, Canran, Yr holl ymatebwyrd




F1. A ydych yn bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn 2023?

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1136 Sylfaen: Cyn-nythwyr n=86; Teuluoedd n=267; Annibynwyr Hŷn n=106; Ymddeolwyr n=57

Tripiau dros nos yng Nghymru a fwriedir yn 2023 yn ôl rhanbarth preswyllo

- Preswylwyr o Gymru sy'n dangos y tebygolrwydd cryfaf o gymryd gwyliau byr neu wyliau yng Nghymru yn 2023. Fodd bynnag, trigolion Gogledd Orllewin Lloegr sydd fwyaf tebygol o fod 'eisoes wedi archebu', ac yna rhanbarthau cyfagos eraill De-orllewin Lloegr a gorllewin canolbarth Lloegr.
- Mae'r tebygolrwydd o ymweld â Chymru ar ei isaf yn y rhanbarthau sydd bellaf i ffwrdd.

Ffigur 41. Tripiau dros nos yng Nghymru a fwriedir yn 2023 yn ôl rhanbarth preswyllo, Yr holl ymatebwyr



F1. A ydych yn bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn 2023?


Sylfaen: Holl ymatebwyr i Gymru n=195; Gogledd Orllewin Lloegr n= 109; Gorllewin Canolbarth Lloegr n= 99; Swydd Efrog n= 79; 'Llundain/ De-ddwyrain Lloegr n= 129; De-orllewin Lloegr n= 79; Yr Alban n= 80; Dwyrain Canolbarth Lloegr n= 78; Gogledd-ddwyrain Lloegr n= 40; Dwyrain Lloegr n= 98; De-ddwyrain Lloegr n=130



Nifer y nosweithiau ar gyfer trip yng Nghymru 2023

- Yn debyg i dripiâu a gymerwyd yn 2022, mae bwriadwyr I Gymru ar gyfer 2023 yn rhagweld y byddant yn cymryd dros 3 trip ar gyfartaledd, wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng gwyliau byr a gwyliau hirach o 4+ noson.


Ffigur 42. Nifer cyfartalog tripiâu yng Nghymru a fwriedir, Yr holl fwriadwyr i Gymru 2023



Lleoliadau eraill yn y DU/lwerddon a ystyriwyd

- Mae bwriadwyr i Gymru 2023 a'r rhai nad ydynt yn fwriadwyr yn debygol o ystyried yr Alban, Gorllewin Lloegr, Swydd Efrog ac Arfordir De Lloegr ar gyfer trip dros nos yn 2023. Mae Ardal y Llynnoedd a Llundain hefyd yn lleoliadau poblogaidd ar gyfer trip dros nos yn 2023 ymhlith y rhai nad ydynt yn fwriadwyr i Gymru yn 2023. Mae'n nodedig bod y rhai nad ydynt yn fwriadwyr i Gymru yn 2023 yn ystyried ystod eang o gyrchfannau heblaw am Gymru. Ychydig iawn o wahaniaethau sydd yn ôl cyfnod bywyd.

Ffigur 43. Lleoliadau yn y DU ac lwerddon a ystyriwyd ar gyfer gwyliau neu wyliau byr
Yr holl fwriadwyr i Gymru yn 2023 a'r rhai nad ydynt yn fwriadwyr




F14/F16. Ble, os unrhyw le, yn y DU ac Iwerddon yr ydych chi o ddifrif yn ystyried ymweld ag ef am wyliau neu wyliau byr yn ystod y 12 mis nesaf? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n cynllunio trip i Gymru yn 2023 n=616 Yr holl ymatebwyr nad ydynt yn cynllunio trip i Gymru yn 2023 n=520



Misoedd y bwriedir cymryd trip yng Nghymru

- Mae bwriadwyr trip yng Nghymru yn fwyaf tebygol o fod yn bwriadu mynd ar eu trip yng Nghymru ym mis Gorffennaf neu fis Awst 2023. Mae mis Tachwedd i fis Chwefror yn gymharol llai deniadol ar gyfer trip yng Nghymru o gymharu â misoedd eraill. O edrych ar y naill ochr a'r llall i fisoedd brig yr haf, mae'n ymddangos bod Mai a Mehefin yn apelio mwy na Medi a Hydref. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod hyn yn ymwneud ag agosrwydd y misoedd hyn at gwblhau'r arolwg – yn ddiweddarach yn y flwyddyn yn llai ym mlaen y meddwl.

Ffigur 44. Misoedd y bwriedir mynd ar driip yng Nghymru, Canran, Yr holl fwriadwyr i Gymru yn 2023




F3. Pryd ydych chi'n bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn 2023?

Sylfaen: Yr holl fwriadwyr i Gymru yn 2023 n= 616

Misoedd y bwriedir mynd ar drip yng Nghymru fesul cam bywyd

- Mae pob cam bywyd yn amrywio yn ôl eu mis dewisol ar gyfer gwyliau dros nos yng Nghymru neu wyliau byr, er mai mis Awst yw'r mwyaf poblogaidd i bawb ac eithrio annibynwyr hŷn – y mae mis Medi a mis Mai yn well ganddynt. Mae teuluoedd yn arbennig o debygol o fwriadu mynd ar drip yn yr haf, er eu bod hefyd yn dangos diddordeb rhwng Mai a Mehefin. Mae ymddeolwyr yn dangos diddordeb mewn mynd ar drip ym mhob mis rhwng Ebrill ac Awst, er bod ymddygiad cymryd triapiau yn 2022 yn awgrymu y gallent osgoi misoedd prysuraf yr haf. Mae cyn-nythwyr yn dangos diddordeb mewn mynd ar drip o fis Mai i fis Medi.

Ffigur 45. Misoedd y bwriedir cymryd trip yng Nghymru yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Yr holl ymatebwyr i Gymru yn 2023




F3. Pryd ydych chi'n bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn 2023?
 Sylfaen: Cyn-nythwyr n=102; Teuluoedd n=300; Annibynwyr Hŷn n=135; Ymddeolwyr n=79



Nifer y nosweithiau ar gyfer trip yng Nghymru yn 2023 fesul mis

- Am y rhan fwyaf o fisoedd y flwyddyn, mae bwriadwyr tripiâu dros nos yng Nghymru yn 2023 yn fwy tebygol o ragweld trip o 4+ mis nag 1-3 noson, ac eithrio Ionawr a Thachwedd lle roedd tripiâu 1-3 noson gryfaf.

Ffigur 46. Nifer y nosweithiau y bwriedir aros yng Nghymru yn 2023, Canran, Yr holl fwriadwyr i Gymru yn 2023




F4. Tua faint o nosweithiau ydych chi'n rhagweld y byddwch chi'n eu gwario ar eich gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn ystod y misoedd hyn? Sylfaen: Ionawr n=33*, Chwefror n=54; Mawrth n=71; Ebrill n=98; Mai n=111; Mehefin n=132; Gorffennaf n=143; Awst n=145; Medi n=102; Hydref n=49*; Tachwedd n=20*; Rhagfyr n=22*

*Rhybudd: Maint sylfaen isel – i'w drin yn ddangosol yn unig

Amser o'r wythnos ar gyfer y trip NESAF yng Nghymru yn 2023

- Mae ychydig dros draean o fwriadwyr i Gymru yn bwriadu aros am benwythnos hir yng Nghymru ar eu trip nesaf, gyda bron i chwarter yn anelu at fynd ar drip sy'n cynnwys dyddiau'r wythnos a dyddiau'r penwythnos.
- Mae bwriad i fynd ar benwythnos hir yn fwyaf amlwg ymhlith cyn-nythwyr a theuluoedd, gyda'r ymddeolwyr yn ysgogi diddordeb mewn triapiau canol wythnos. Mae annibynwyr hŷn ac ymddeolwyr yn fwy tebygol o ddweud nad oes ganddynt unrhyw hoffter o ran adeg o'r wythnos ar gyfer eu trip nesaf i Gymru na chyn-nythwyr a theuluoedd.

Ffigur 47. Amser o'r wythnos y bwriedir cymryd trip i Gymru, Canran, Yr holl ymatebwyr i Gymru yn 2023




F5. Pa adeg/degau o'r wythnos fydddech chi'n fwyaf tebygol o gymryd eich gwyliau byr/gwyliau nesaf yng Nghymru?
Sylfaen: Yr holl fwriadwyr i Gymru 2023 n= 616 Cyn-nythwyr n=102; Teuluoedd n=300; Annibynwyr Hŷn n=135;
Ymddeolwyr n=79

Cyfansoddiad parti ar gyfer y trip NESAF yng Nghymru yn 2023

- Mae bron i 3 o bob 5 (58%) o fwriadwyr yn bwriadu ymweld â Chymru gyda'u partner ar eu trip nesaf a 2 o bob 5 (40%) gyda'u plant/wyrion a'u hwyresau. Bydd ffrindiau yn mynd gydag 1 o bob 6 (16%). Bydd anifeiliaid anwes, aelodau eraill o'r teulu, a rhieni/rhieni eu partner yn mynd gydag 1 o bob 10 (10%) yr un.
- Mae teuluoedd yn fwyaf tebygol o fod yng nghwmni eu plant neu wyresau (64%) ar eu gwyliau nesaf neu wyliau byr yng Nghymru. Mae cyn-nythwyr, pobl hŷn annibynnol ac wedi ymddeol yn fwyaf tebygol o fod yng nghwmni eu partneriaid. Mae cyn-nythwyr yn fwy tebygol o fod yng nghwmni eu ffrindiau, eu rhieni/rhieni eu partner, neu o ymweld ar eu pen eu hunain na chyfnodau bywyd eraill.

Ffigur 48. Pwy sy'n debygol o fynd gyda'r rhai sy'n bwriadu cymryd trip yng Nghymru, Canran, Yr holl fwriadwyr i Gymru 2023




F6. Pwy, os o gwbl, sy'n debygol o ddod gyda chi ar eich gwyliau nesaf neu wyliau byr yng Nghymru?
Sylfaen: Yr holl fwriadwyr i Gymru 2023 n= 616; Cyn-nythwyr n=102; Teuluoedd n=300; Annibynnwyr Hŷn n=135;
Ymddeolwyr n=79

Dewis cyrchfan ar gyfer trip NESAF yng Nghymru yn 2023

- Mae bron i draean o'r rhai sy'n bwriadu ymweld â Chymru yn 2023 yn bwriadu aros mewn 'tref hanesyddol neu dreftadaeth' ar eu trip nesaf, gyda chyfran debyg yn bwriadu aros mewn lleoliad 'mynyddig neu fryniau', 'cyrchfan glan môr draddodiadol', 'cefn gwlad neu bentref golygfaol' ac 'arfordir neu harbws golygfaol'.
- Mae cyfran gyfun uchel y mathau o gyrchfannau y bwriedir ymweld â hwy yn awgrymu nad yw ymwelwyr wedi penderfynu ar eu cyrchfan hyd yma.

Ffigur 49. Math o gyrchfan y rhai sy'n bwriadu mynd ar drip yng Nghymru, Canran, Yr holl fwriadwyr i Gymru yn 2023




F8. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fathau o gyrchfannau rydych chi'n debygol o aros ynddynt yn ystod eich gwyliau byr neu wyliau nesaf yng Nghymru?
Sylfaen: Yr holl fwriadwyr i Gymru 2023 n= 616

Dewis cyrchfan ar gyfer trip NESAF yng Nghymru yn 2023 yn ôl cyfnod bywyd

- Yn unol â ffafriaeth gyffredinol, mae amrywiad yn y math o gyrchfan a ffafir yn ôl cyfnod bywyd. Mae mynegeion 'trefi hanesyddol neu dreftadaeth' yn uchel ar gyfer ymddeolwyr, tra bod mynegeion 'ar gyfer yr 'arfordir neu harbws golygfaol' yn uchel ar gyfer annibynwyr hŷn, a mynegeion 'pentref neu bentref golygfaol' yn uchel ar gyfer ymddeolwyr ac annibynwyr hŷn. Mae teuluoedd yn nodi eu bod yn ffafrio ystod o fathau o gyrchfannau. Mae rhai gwahaniaethau gydag ymddygiad triplau yn 2022 ond bydd hyn yn cael ei yrru'n rhannol gan y ffocws ar 'driplau nesaf' ar gyfer bwriadwyr 2023 (cyfeiriodd data 2022 at driplau a gymerwyd ar draws y flwyddyn gyfan).

Ffigur 50. Math o gyrchfan y rhai sy'n bwriadu mynd ar drip yng Nghymru, Canran, Yr holl fwriadwyr i Gymru yn 2023



F8. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fathau o gyrchfannau rydych chi'n debygol o aros ynddynt yn ystod eich gwyliau byr neu wyliau nesaf yng Nghymru?



Sylfaen: Cyn-nythwyr n=102; Teuluoedd n=300; Annibynwyr Hŷn n=135; Ymddeolwyr n=79



Ardaloedd y cynllunir aros dros nos ynddynt pan gymerir y trip NESAF yng Nghymru

- Caerdydd yw'r cyrchfan y mae bwriadwyr i Gymru yn 2023 yn fwyaf tebygol o ymweld ag ef ar eu trip nesaf i Gymru (wedi'i yrru gan gynnythwyr ar 21%), ac yna Eryri a Bae Abertawe. Gogledd-ddwyrain Cymru yw'r 6ed safle sy'n cael ei ffafrio fwyaf, er ei fod yn brif gyrchfan ymhlith teuluoedd. Er bod gan Ddyffryn Gwy a Dyffryn Wysg apêl gymharol isel yn gyffredinol, ymhlith yr ymddeolwyr dyma'r cyrchfan *mwyaf* poblogaidd ar 12%.

Ffigur 51. Ardaloedd aros y rhai sy'n bwriadu cymryd y trip nesaf yng Nghymru, Canran, Yr holl fwriadwyr i Gymru yn 2023




F7. Ym mha un o'r ardaloedd hyn ydych chi'n bwriadu aros dros nos ar eich gwyliau nesaf neu wyliau byr yng Nghymru? Sylfaen: Yr holl fwriadwyr i Gymru yn 2023 n= 616 Gogledd Cymru = Gogledd-ddwyrain Cymru, Llandudno a Bae Colwyn, Mynyddoedd ac Arfordir Eryri, Ynys Môn; Canolbarth = Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog a Cheredigion; De-orllewin Cymru = Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Bae Abertawe; De-ddwyrain Cymru = Caerdydd, Cymoedd De Cymru, Arfordir Treftadaeth Morgannwg a Dyffryn Gwy

Gweithgareddau a gynlluniwyd ar y trip NESAF i Gymru

- ‘Cerdded a heicio’ yw’r prif weithgaredd sydd wedi’i gynllunio ar gyfer tripiâu nesaf yng Nghymru yn 2023, wedi’i ddilyn yn agos gan ‘roi cynnig ar fwyd a diod lleol’ ac ‘ymweld ag atyniadau awyr agored i ymwelwyr’.

Ffigur 52. Y 12 gweithgaredd uchaf ar gyfer y rhai sy’n bwriadu mynd ar drip yng Nghymru, Canran, Yr holl fwriadwyr i Gymru yn 2023




F9. Pa rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi'n debygol o'u gwneud ar eich gwyliau byr nesaf yng Nghymru?
Sylfaen: Yr holl fwriadwyr i Gymru 2023 n= 616

Gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer y trip NESAF yng Nghymru fesul cyfnod bywyd

- Cyn-nythwyr sydd fwyaf tebygol o gynllunio ‘cerdded, heicio neu grwydro’, ymweld â safle treftadaeth’ a ‘rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol’. Ar gyfer ‘teuluoedd’ y gweithgareddau a ffafrir yw ‘cerdded, heicio neu grwydro’, ‘ymweld ag atyniadau awyr agored’ a ‘rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol’. Mae annibynwyr hŷn hefyd yn fwyaf tebygol o gynllunio ‘cerdded, heicio neu grwydro’, ‘rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol’ ac ‘ymweld ag atyniadau awyr agored’. Mae ymddeolwyr yn fwyaf tebygol o gynllunio ‘rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol’, ‘archwilio ardaloedd golygfaol yn y car’, ‘cerdded, heicio neu grwydro’ ac ‘ymweld ag atyniadau awyr agored’, ac maent yn fwy tebygol o gynllunio ar gyfer gwneud pob un o'r rhain na chyfnodau bywyd eraill.

Ffigur 53. Y 12 gweithgaredd uchaf ar gyfer y rhai sy'n bwriadu cymryd trip yng Nghymru, Canran, Yr holl fwriadwyr i Gymru yn 2023



F9. Pa rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi'n debygol o'u gwneud ar eich gwyliau byr nesaf yng Nghymru?

Sylfaen: Cyn-nythwyr n=102; Teuluoedd n=300; Annibynwyr hŷn n=135; Ymddeolwyr n=79




Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Gweithgareddau y cynlluniwyd cymryd rhan ynddynt pan yn cymryd y trip NESAF yng Nghymru

- Mae yna nifer o weithgareddau sydd o ddiddordeb arbennig i tua 1 o bob 10 neu lai o ymwelwyr posibl â Chymru. ‘Cadwraeth a gwirfoddoli’ yw’r gweithgaredd sydd wedi’i gynllunio leiaf ar wyliau byr neu wyliau yng Nghymru, gyda physgota a gwyllo/cymryd rhan mewn digwyddiad chwaraeon yn dilyn yn agos.
- Mae gwahaniaethau cyfyngedig yn ôl cyfnod bywyd, ac eithrio ‘profiadau tymhorol’ sy’n cael eu ffafrio gan gyn-nythwyr a ‘theuluoedd’.

Ffigur 54. Y 10 gweithgaredd isaf ar gyfer y rhai sy’n bwriadu cymryd trip yng Nghymru, Canran, Yr holl fwriadwyr i Gymru yn 2023




F9. Pa rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi'n debygol o'u gwneud ar eich gwyliau byr nesaf yng Nghymru?
 Sylfaen: Yr holl fwriadwyr i Gymru yn 2023 n= 616



Diddordeb mewn mynychu gwyliau neu ddigwyddiadau wrth gymryd trip yng Nghymru

- Mae diddordeb cyffredinol cryf mewn gwyliau/digwyddiadau yng Nghymru ymhlith bwriadwyr i Gymru ar gyfer 2023 – ‘bwyd a diod’, ‘cynnyrch lleol/celf/crefft’, ‘cerdded/beicio anghystadleuol’ a ‘sioeau gwledig/garddio’ sy’n ennyn y diddordeb cryfaf.

Ffigur 55. Diddordeb mewn gwyliau/digwyddiadau'r rhai sy'n bwriadu mynd ar drip yng Nghymru, Canran, Yr holl fwriadwyr i Gymru yn 2023



F10. Faint, os o gwbl, o ddiddordeb fyddai gennych chi mewn mynychu'r mathau isod o wyliau neu ddigwyddiadau yng Nghymru yn 2023? Sylfaen: Yr holl fwriadwyr i Gymru yn 2023 n= 616



Ffynonellau gwybodaeth i'w defnyddio wrth fynd ar drip yng Nghymru

- Mae ymgwymerwyr tripliau yng Nghymru yn debygol o ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau i gynllunio eu gwyliau byr dros nos neu eu gwyliau yn 2023 – sgysrsiau gyda ffrindiau, peiriannau chwilio a llawlyfrau teithio printiedig yw'r prif ddylanwadau.
- Mae 'sgysrsiau gyda ffrindiau/teulu sydd wedi ymweld' yn ffynhonnell wybodaeth boblogaidd ar draws pob cyfnod bywyd. Mae 'peiriannau chwilio' a 'gwefannau byrddau twristiaeth' yn fwy poblogaidd ymhlith ymddeolwyr. Mae ymddeolwyr yn llai tebygol o adrodd eu bod wedi defnyddio 'gweithgaredd cyfryngau cymdeithasol ffrind neu aelod o'r teulu' neu 'e-byst gan fyrddau croeso' fel ffynonellau gwybodaeth i gynllunio trip i Gymru yn 2023 na chyfnodau bywyd eraill.

Ffigur 56. Ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd/sy'n debygol o gael eu defnyddio gan y rhai sy'n bwriadu mynd ar drip yng Nghymru, Canran, Holl fwriadwyr i Gymru yn 2023



F12. Pa rai o'r ffynonellau gwybodaeth hyn, os o gwbl, ydych chi'n debygol o'u defnyddio neu ydych chi eisoes wedi'u defnyddio i gynllunio'ch trip/tripliau i Gymru yn 2023?

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n bwriadu mynd ar drip i Gymru n= 616



Llywodraeth Cymru
Welsh Government




Rhwystrau i ymweld â Chymru yn 2023



Rheswm dros beidio ag ymweld â Chymru yn y 12 mis nesaf

- Yn debyg i rwystrau i ymweld â Chymru yn 2022, y ddau brif reswm dros beidio ag ymweld â Chymru yn 2023 yw ei fod yn 'rhy bell i deithio' a 'torri'n ôl ar deithiau yn y DU'. Ymhlith y rhesymau eraill ffactorau 'seiliedig ar gyrchfan' yw'r categori rhesymau amlycaf dros beidio ag ymweld â Chymru yn 2023. Fodd bynnag, yn wahanol i dripiâu yn 2022, 'Rwy'n cymryd gwyliau tramor yn lle hynny' yw'r prif reswm unigol sy'n gyrru hyn. Nododd 1 o bob 7 eu bod yn methu fforddio trip i Gymru.

Ffigur 57. Y 10 prif reswm dros beidio ag ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr yn 2023, Canran, Yr holl bobl nad ydynt yn ymwelwyr i Gymru yn 2023



F15.Beth yw'r rhesymau pam nad ydych yn bwriadu ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr yn 2023?

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr nad oedd yn bwriadu cymryd trip i Gymru yn 2023 n=520




Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Rhesymau dros beidio ag ymweld â Chymru yn 2023 o gymharu â 2022

- O gymharu â 2022, mae'r rhai nad ydynt yn bwriadu ymweld â Chymru yn 2023 yn fwy tebygol o ddweud 'na allant fforddio tripi Gymru' a'u bod yn 'cymryd gwyliau tramor yn lle hynny'. Yn nodedig, maent yn llai tebygol o nodi eu bod yn 'nerfus oherwydd COVID-19'.

Ffigur 58. Rhesymau dros beidio ag ymweld â Chymru yn 2022 o gymharu â rhesymau dros beidio â chynllunio i ymweld â Chymru yn 2023, Canran.



F15. Beth yw'r rhesymau pam nad ydych yn bwriadu ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr yn 2023?


Sylfaen: Yr holl ymatebwyr nad oedd yn bwriadu cymryd trip yng Nghymru yn 2023 n=520 E4. Beth yw'r rhesymau pam na wnaethoch chi gymryd gwyliau neu wyliau yng Nghymru yn 2022? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr na aeth ar drip yng Nghymru yn 2022 n=620



Dylanwad argyfwng costau byw wrth fynd ar drip yng Nghymru

- Mae'r argyfwng costau byw yn debygol o gael dylanwad eang ar dripiâu yng Nghymru yn 2023, gyda 3 o bob 4 ymwelydd posibl yn nodi rhyw ffordd o reoli costau. 'Byddaf yn dewis llety rhatach', 'Byddaf yn edrych am fwy o bethau am ddim i'w gwneud' a 'Byddaf yn edrych am gynigion/bargeinion arbennig' yw'r prif ffyrdd y bydd ymddygiad yn cael ei gymedroli, ond gall bron i 2 o bob 10 ymwelydd dorri'n ôl ar wariant eilaidd hefyd ar fwyta allan neu siopa yn y gyrchfan.
- Yn fras, mae'r rhai sydd wedi cael eu taro'n galetach gan yr argyfwng costau byw neu sy'n ofalus gyda'u harian yn fwy tebygol o dorri'n ôl ar wariant tripiâu – yn enwedig ar lety, gwario ar fwyta allan, chwilio am bethau am ddim i'w gwneud a theithio ar adegau llai costus.

Ffigur 59. Y prif ffyrdd y mae argyfwng costau byw yn debygol o ddylanwadu ar dripiâu yng Nghymru yn 2023, Canran, Yr holl fwriadwyr i Gymru yn 2023 a grwpiau effaith costau byw




Apêl Llwybrau/Trywyddau



Llwybrau pellter hir a ddilynwyd ar wyliau domestig yn ystod y 5 mlynedd diwethaf

- Mae dros hanner (58%) 'marchnad wyliau'r DU' (ymatebwyr i'r arolwg hwn) yn honni eu bod wedi dilyn llwybr pellter hir ar wyliau yn y DU neu wyliau byr yn y 5 mlynedd diwethaf – 'cerdded/heicio' a 'llwybrau hunan-yrru' y mwyaf poblogaidd (gweler y troednodyn am ddiffiniad o lwybr pellter hir). Teuluoedd yw'r cyfnod bywyd sydd fwyaf tebygol o fod wedi dilyn llwybr domestig pellter hir yn y 5 mlynedd diwethaf, ac yna cyn-nythwyr. Er bod annibynwyr hŷn ac ymddeolwyr y lleiaf tebygol o fod wedi dilyn llwybr pellter hir, o blith y llwybrau mae ganddyn nhw ddiddordeb mewn 'llwybrau hunan-yrru' a 'cerdded/ heicio'.

Ffigur 60. Mathau o lwybrau pellter hir a ddilynwyd ar wyliau neu wyliau byr yn y DU yn y 5 mlynedd diwethaf, Canran, Yr holl ymatebwyr




G1. Pa rai, os o gwbl, o'r mathau canlynol o lwybrau pellter hir ydych chi wedi'u dilyn ar wyliau neu wyliau byr yn y DU yn y 5 mlynedd diwethaf? Mae 'llwybr pellter hir' yn golygu trip sy'n golygu ymweld â lleoliadau lluosog ar draws y DU, sy'n para sawl diwrnod neu fwy, ac aros dros nos mewn gwahanol leoedd.

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1136

Llwybrau diddordeb arbennig ar wyliau domestig yn ystod y 5 mlynedd diwethaf

- Mae tua 7 o bob 10 (71%) o 'farchnad wyliau'r DU' (y rhai a ymatebodd i'r arolwg hwn) yn honni eu bod wedi dilyn llwybr diddordeb arbennig ar wyliau domestig yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.
- Y 'llwybrau diddordeb arbennig' mwyaf poblogaidd yw 'llwybrau cerdded', a 'natur a bywyd gwyllt' – ill dau wedi'u dilyn gan tua 1 o bob 5. Mae amrywiaeth o lwybrau eraill hefyd yn boblogaidd, gan gynnwys 'bwyd, diod a chwilota', 'gerddi', 'safleoedd treftadaeth' a 'theithiau golygfaol a hunan-yrru'.

Ffigur 61. Y 12 llwybr diddordeb arbennig uchaf a ddilynwyd ar wyliau neu wyliau byr yn y DU yn y 5 mlynedd diwethaf, Canran, Yr holl ymatebwyr




G2. Pa rai, os o gwbl, o'r llwybrau diddordeb arbennig pellter hir neu fyr canlynol ydych chi wedi'u dilyn ar wyliau neu wyliau byr yn y DU yn y 5 mlynedd diwethaf? Gallai hyn fod yn drip hirach yn ymweld â lleoliadau lluosog dros sawl diwrnod neu wibdaith diwrnod byrrach yn ymweld â gwahanol leoedd yn yr ardal leol lle rydych chi'n aros.

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1136

Llwybrau diddordeb arbennig a ddilynwyd yn ystod gwyliau byr domestig yn ystod y 5 mlynedd diwethaf

- Mae ystod eang o fathau eraill o lwybrau diddordeb arbennig y mae marchnad wyliau'r DU wedi'u cymryd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, ond mae cyfran gymharol fach o ymwelwyr wedi dilyn y rhain. Mae'r rhain yn cynnwys llwybrau thema creadigol, gweithgareddau penodol ac addysg amgylcheddol.

Ffigur 62. Y 12 llwybr diddordeb arbennig isaf a ddilynwyd ar wyliau neu wyliau byr yn y DU yn y 5 mlynedd diwethaf, Canran, Yr holl ymatebwyr




G2. Pa rai, os o gwbl, o'r llwybrau diddordeb arbennig pellter hir neu fyr canlynol ydych chi wedi'u dilyn ar wyliau neu wyliau byr yn y DU yn y 5 mlynedd diwethaf?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1136

Diddordeb mewn llwybrau pellter hir yng Nghymru

- Wrth edrych ar lwybrau pellter hir y byddai gan ymwelwyr ddiddordeb eu cymryd yng Nghymru o fewn yr ychydig flynyddoedd nesaf, cerdded/heicio oedd y dewis cyntaf (fel yr oedd ar gyfer y rhai a oedd yn dilyn llwybr pellter hir yn y 5 mlynedd diwethaf), ac yna hunan-yrru. Mae gan 'gwyliau ar drên' a 'theithiau coets/bws' lefel diddordeb is, ond nodedig. Dim ond 1 o bob 10 ddywedodd y byddent yn ystyried llwybr pellter hir ar gefn ceffyl, gyda chyfran debyg yn nodi 'beicio'.
- Yn nodedig, mae diddordeb mewn dilyn llwybr pellter hir yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf yn uwch na llwybrau a gymerwyd yn y DU yn y pum mlynedd diwethaf, sy'n awgrymu bod galw mawr am y math hwn o drip yng Nghymru.

Ffigur 63. Llwybrau pellter hir y mae diddordeb eu dilyn yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, Canran, Yr holl ymatebwyr




G3. Gan edrych ymlaen yn awr, pa rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o lwybrau pellter hir y byddai gennych ddiddordeb yn eu dilyn ar wyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr=1136

Diddordeb mewn llwybrau pellter hir yng Nghymru fesul cam bywyd

- Mae rhywfaint o amrywiaeth yn y diddordeb mewn llwybrau pellter hir yn ôl cyfnod bywyd – yn gyffredinol, mae cyn-nythwyr a theuluoedd yn dangos mwy o ddiddordeb, yn enwedig ar gyfer llwybrau mwy corfforol egniol fel ‘cerdded/ heicio’, ‘beicio’, a ‘cefn ceffyl’. Mae diddordeb mewn llwybrau hunan-yrru, gwyliau ar y trêen a gwyliau coets/bws wedi'u trefnu yn fwy cyfartal ar draws gwahanol gyfnodau bywyd.
- Mae diddordeb gydol oes mewn llwybrau pellter hir yng Nghymru yn y dyfodol yn atgynhyrchu'n fras y llwybrau a ddilynwyd yn y DU yn y pum mlynedd diwethaf ac eithrio'r cyn-nythwyr sy'n dangos diddordeb cryfach mewn triapiau yn y dyfodol.

Ffigur 64. Llwybrau pellter hir y mae diddordeb yn eu dilyn yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, Canran, Yr holl ymatebwyr




G3. Gan edrych ymlaen yn awr, pa rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o lwybrau pellter hir y byddai gennych ddiddordeb yn eu dilyn ar wyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf?
 Sylfaen: Cyn-nythwyr n=186; Teuluoedd n=416; Annibynwyr Hŷn n=312; Ymddeolwyr n=222

Apêl llwybrau diddordeb arbennig ar wyliau neu wyliau byr yng Nghymru

- Wrth edrych ar y diddordeb mewn dilyn llwybrau diddordeb arbennig yng Nghymru, 'cerdded/heicio' yw'r dewis cyntaf (fel yr oedd i'r rhai a gymerodd ran mewn llwybr yn y 5 mlynedd diwethaf), i'w ddilyn gan llwybr natur/bywyd gwyllt. Roedd amrywiaeth o lwybrau eraill hefyd o ddiddordeb gan gynnwys 'safleoedd treftadaeth' a 'bwyd, diod, chwilota' a llwybrau golygfaol a hunan-yrru'.
- Yn nodedig, fel gyda llwybrau pellter hir, mae'r diddordeb mewn dilyn llwybr diddordeb arbennig yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf yn uwch na'r rhai a gymerwyd yn y DU yn y pum mlynedd diwethaf, gan awgrymu unwaith eto bod galw mawr am y math hwn o drip yng Nghymru.

Ffigur 65. Llwybrau diddordeb arbennig y mae diddordeb eu dilyn yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, Canran yr 11 Uchaf, Yr holl ymatebwyr




G4. A pha rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o lwybrau diddordeb arbennig pellter hir neu fyr y byddai gennych ddiddordeb yn eu dilyn ar wyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1136

Apêl llwybrau diddordeb arbennig ar wyliau neu wyliau byr yng Nghymru

- Mae amrywiaeth yn apêl llwybrau diddordeb arbennig yn ôl cyfnod bywyd. Er enghraifft, mae mynegai 'bwyd, diod chwilota' a 'llwybrau cerdded' yn uwch ar gyfer cyn-nythwyr, gyda 'safleoedd treftadaeth', 'llwybrau hunan-yrru', 'teithiau golygfaol', a 'gerddi' yn apelio at gyfnodau bywyd hŷn. Mae gan deuluoedd ddiddordeb mwyaf mewn llwybrau sy'n seiliedig ar 'natur a bywyd gwyllt', 'cerdded', 'bwyd a diod' a 'safleoedd treftadaeth'.

Ffigur 66. Llwybrau diddordeb arbennig y mae diddordeb eu dilyn yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, Canran yr 11 Uchaf, Yr holl ymatebwyr




G4. A pha rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o lwybrau diddordeb arbennig pellter hir neu fyr y byddai gennych ddiddordeb mewn eu dilyn ar wyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf?

Sylfaen: Cyn-nythwyr n=186; Teuluoedd n=416; Annibynwyr Hŷn n=312; Ymdeolwyr n=222

Apêl llwybrau diddordeb arbennig ar wyliau neu wyliau byr yng Nghymru

- Mae nifer o lwybrau diddordeb arbennig eraill o ddiddordeb ar gyfer gwyliau yng Nghymru, er bod y rhain yn apelio at leiafrif o farchnad wyliau'r DU. Ymhlith y rhain mae gweithgareddau sy'n addas i blant, lleoliadau teledu/ffilm/llynyddol a thripiâu dŵr.

Ffigur 67. Llwybrau diddordeb arbennig y mae diddordeb eu dilyn yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, Canran 11 Isaf, Yr holl ymatebwyr




G4. A pha rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o lwybrau diddordeb arbennig pellter hir neu fyr y byddai gennych ddiddordeb eu dilyn ar wyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1136

Apêl llwybrau diddordeb arbennig ar wyliau neu wyliau byr yng Nghymru

- Efallai nad yw'n syndod bod mynegai 'teuluoedd' yn arbennig o uchel ar gyfer llwybrau sy'n ymwneud â 'lleoedd a gweithgareddau sy'n gyfeillgar i blant', 'addysg amgylcheddol' a 'gweithgareddau antur'. 'Llwybrau ffotograffiaeth' a 'lleoliadau teledu/ffilm/llynyddol' sydd â'r diddordeb mwyaf ymhlith cyn-nythwyr.
- Mae diddordeb mewn 'teithiau cysylltiedig cynaliadwy/eco-gyfeillgar' yn cyd-fynd ag oedran – mwy o ddiddordeb gan ymatebwyr iau.

Ffigur 68. Llwybrau diddordeb arbennig y mae diddordeb eu dilyn yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, Canran 11 Isaf, Yr holl ymatebwyr




G4. A pha rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o lwybrau diddordeb arbennig pellter hir neu fyr y byddai gennych ddiddordeb eu dilyn ar wyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf?

Sylfaen: Cyn-nythwyr n=186; Teuluoedd n=416; Annibynwyr Hŷn n=312; Ymddeolwyr n=222

Hyd y trywydd neu'r llwybr twristiaeth a ddymunir o amgylch Cymru

- Dau i dri diwrnod yw'r hyd mwyaf dewisol o drywydd neu lwybr twristiaeth yng Nghymru. Dywedodd 1 o bob 5 mai'r amserlen ddefnyddol fyddai 4-7 diwrnod gydag 1 mewn 6 yn nodi o fewn diwrnod neu lai. Cyfyng iawn yw apêl triplau hir o dros wythnos a byddai'n well gan y rhan fwyaf o bobl ddilyn llwybr mewn un trip yn hytrach na thros ymweliadau lluosog.

Ffigur 69. Hyd y trywydd neu'r llwybr a ddymunir, Canran, Yr holl ymatebwyr



G5. Am ba mor hir fydddech chi'n agored i ddilyn trywydd neu lwybr twristiaeth o amgylch Cymru?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1136


Effaith Marchnata



Faint sydd wedi clywed sôn am Gymru fel lle i ymweld

- Mae hyn yn fesur o amlygiad cyffredinol i Gymru yn hytrach nag adalw marchnata penodol.
- Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o farchnad wyliau'r DU (58%) wedi clywed 'tua'r un lefel' o sôn am Gymru fel lle i ymweld yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Fodd bynnag, honnodd cyfran uwch eu bod wedi clywed llai nag arfer o gymharu â thon yr arolwg ym mis Mehefin 2022, felly ar lefel net, mae pobl ym mis Ionawr 2023 wedi clywed llai o sôn am Gymru nag arfer (net -14), o gymharu â mis Mehefin 2022 (-8).

Ffigur 70. Faint sydd wedi clywed sôn am Gymru fel lle i ymweld, Canran, Yr holl ymatebwyr




H1. O gymharu â'r arfer, faint ydych chi wedi clywed sôn am Gymru fel lle i ymweld dros y 3 mis diwethaf?
 Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1,136

Ffyrdd o weld neu glywed am wyliau yng Nghymru

- Mae bron i 3 o bob 5 (59%) o farchnad wyliau'r DU wedi gweld neu glywed am wyliau yng Nghymru drwy o leiaf un ffynhonnell wybodaeth yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, yn debyg i'r arolwg blaenorol ym mis Mehefin 2022.
- Ar lafar yw'r brif ffynhonnell, gyda hysbysebion teledu yn dilyn yn agos.
- Roedd y gyfran a oedd wedi gweld neu glywed am wyliau yng Nghymru yn ystod y misoedd diwethaf yn uwch ymhlith y rhai a ymwelodd â Chymru yn 2022 (80% wedi clywed am Gymru mewn o leiaf un ffynhonnell) a'r rhai sy'n debygol/yn bendant yn bwriadu gwneud hynny yn 2023 (82% wedi gwneud hynny).

Ffigur 71. Ffyrdd y gwelwyd neu y clywyd am wyliau yng Nghymru yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, Canran




H2. Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol ydych chi wedi'u gweld neu eu clywed am wyliau yng Nghymru yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf?

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1,136

Ymgysylltiad â marchnata a chyfathrebu Croeso Cymru

- Mae tua 2 o bob 5 (37%) o farchnad wyliau'r DU yn honni eu bod wedi ymgysylltu ag un o sianeli marchnata digidol Croeso Cymru yn y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn debyg i lefelau ymgysylltu ym mis Mehefin 2022.
- 'Ymweld â gwefan Croeso Cymru', 'dilyn/hoffi tudalen Facebook Croeso Cymru' a derbyn cylchlythyrau Croeso Cymru yw'r prif sianeli cyswllt â Croeso Cymru. Ar gyfartaledd, ymgysylltodd y rhai a ymgysylltodd â marchnata a chyfathrebu Croeso Cymru â dwy sianel.
- Yn nodedig, mae ymgysylltiad â marchnata Croeso Cymru yn uwch ymhlith y rhai a ymwelodd â Chymru yn 2022 (66% wedi ymgysylltu ag o leiaf un sianel) a'r rhai sy'n debygol/yn bendant yn bwriadu gwneud hynny yn 2023 (63% wedi gwneud hynny).

Ffigur 72. Ymgysylltiad â marchnata a chyfathrebu Croeso Cymru, Canran



H8. Yn fwy cyffredinol, pa rai o'r canlynol sy'n berthnasol i chi a Croeso Cymru yn y 12 mis diwethaf?

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1,136

Ffilmiau Hyrwyddo Croeso Cymru a brofwyd yn yr arolwg hwn

Anturiaethwyr Hydref/Gaeaf



Teuluoedd Hydref/Gaeaf



Detholiad Hydref/Gaeaf




Gwyliau byr Dinas Caerdydd



Galw i gof ffilmiau hyrwyddo Croeso Cymru

- Yn gyfan gwbl, roedd dros 1 o bob 4 (26%) o 'farchnad wyliau'r DU' yn bendant wedi gweld un o ffilmiau hyrwyddo Croeso Cymru yn ystod y misoedd diwethaf. Mae'r galw i gof ychydig yn uwch ar gyfer 'Anturiaethwyr Hydref/Gaeaf' a 'Casgliad yr Hydref/Gaeaf' yn is a galw i gof 'Teuluoedd Hydref/Gaeaf', er ei fod yn dyblu ymhlith y cyfnod bywyd teuluoedd. Yn gyffredinol, roedd teuluoedd yn fwy tebygol o alw i gof pob hysbyseb Croeso Cymru na chyfnodau bywyd eraill. Roedd 'galw i gof pendant' am o leiaf un hysbyseb ar ei uchaf yn Llundain/Llundain Fwyaf.

Ffigur 73. Galw i gof hysbysebion Croeso Cymru unigol, Canran, Gan yr holl ymatebwyr




H4A-D. Ydych chi'n cofio gweld y ffilm hon neu rywbeth tebyg iawn yn ystod y misoedd diwethaf? Efallai eich bod wedi ei weld ar y teledu neu ar-lein.

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1,136

Canfyddiadau cyffredinol o ffilmiau hyrwyddo

- Roedd canfyddiadau o'r Ffilmiau Hyrwyddo yn gadarnhaol ar y cyfan, mwyafrif cryf yn cytuno (ac ychydig iawn yn anghytuno) eu bod yn 'peintio Cymru mewn goleuni cadarnhaol iawn' (79%), 'yn gwneud i Gymru edrych yn ddeniadol iawn am wyliau neu wyliau byr' (75%), a 'bydd yn gwneud pobl yn fwy tebygol o ystyried Cymru ar gyfer gwyliau neu wyliau byr' (72%). Yn yr un modd, cafwyd argraffiadau cadarnhaol ar gyfer 'dangos Cymru mewn ffordd nad ydych yn ei gweld fel arfer' ac am 'wneud pobl yn fwy tebygol o weld Cymru yn gyrchfan 'drwy gydol y flwyddyn'.
- Yn gyffredinol, mae canfyddiadau'n fwy cadarnhaol ymhlith y rhai sy'n bwriadu ymweld â Chymru na'r rhai nad ydynt yn bwriadu gwneud hynny.

Ffigur 74. Canfyddiadau Hysbysebion teledu yn gyffredinol, Canran, Yr holl ymatebwyr




H5. Nawr wrth feddwl am y ffilmiau rydyn ni newydd eu dangos i chi fel un ymgyrch farchnata gyfan, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1,136



Datganiadau disgrifiadol sy'n dod allan o'r ffilmiau hyrwyddo

- Sgoriodd yr hysbysebion yn uchel am gyfleu 'golygfeydd a thirweddau anhygoel' (46%), 'llawer o weithgareddau a phethau i'w gwneud' (41%) a 'lleoedd gwych i archwilio oddi ar y llwybr sathredig' (40%). Dywedodd tua 1 o bob 3 fod yr hysbysebion yn dangos 'cymysgedd apelgar o gefn gwlad a threfi/dinasoedd', 'cyrchfan sy'n gyfoethog mewn hanes a threftadaeth' a 'tirnodau ac atyniadau ymwelwyr enwog' am Gymru.

Ffigur 75. Datganiadau disgrifiadol sy'n dod allan o hysbyseb teledu, Canran, Y Deg Uchaf, Yr holl ymatebwyr



H6. Pa rai, os o gwbl, o'r datganiadau disgrifiadol hyn am Gymru fydddech chi'n dweud sy'n dod ar draws yn glir o'r hysbysebion rydych chi wedi'u gweld?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1,136

Datganiadau disgrifiadol sy'n dod allan o'r ffilmiau hyrwyddo

- Yr hysbysebion a gafodd y sgôr isaf ar gyfer cyfleu Cymru yw 'yn gynhwysol ac yn hygyrch i bobl fel fi' a'r 'cyfleoedd i gwrdd a chymdeithasu â phobl eraill'.
- Mae rhai ffactorau nodedig eraill y mae'r ymchwil hwn wedi'u nodi fel rhai pwysig i bobl sy'n penderfynu ble i fynd ar wyliau sy'n llai cysylltiedig â'r ffilmiau hyrwyddo. Y rhain yw 'gwerth gwyb am arian', 'llety o ansawdd uchel', 'mae pobl yn groesawgar' a 'lleoedd sy'n enwog am eu bwyd a diod'.

Ffigur 76. Datganiadau disgrifiadol sy'n dod allan o hysbyseb teledu, Canran, Yr 8 Isaf, Yr holl ymatebwyr




H6. Pa rai, os o gwbl, o'r datganiadau disgrifiadol hyn am Gymru fydech chi'n dweud sy'n dod drosodd yn glir o'r hysbysebion rydych chi wedi'u gweld?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1,136

Canfyddiadau o Gymru sy'n dod allan o'r ffilmiau hyrwyddo

- Mae tua 2 o bob 3 yn cytuno'n gryf/yn dueddol o gytuno bod y ffilmiau hyrwyddo yn gwneud iddynt nhw fod â 'llawer mwy o ddiddordeb yng Nghymru ar gyfer gwyliau neu wyliau byr' – yr un mor uchel ymhlith y rhai nad ydynt erioed wedi ymweld o'r blaen. Creodd y ffilmiau hyrwyddo argraff gadarnhaol hefyd ar gyfer amcanion strategol allweddol eraill i annog ymwelwyr i ymweld â phob rhan o Gymru, i gymryd gwyliau hirach, i ymweld trwy gydol y flwyddyn ac i roi cynnig ar weithgareddau a phrofiadau newydd.
- Mae'r canfyddiadau ar eu mwyaf cadarnhaol ymhlith y rhai a aeth ar drip yng Nghymru yn 2022 ac sy'n bwriadu gwneud hynny yn 2023.

Ffigur 77. Canfyddiadau Hysbysebion teledu yn gyffredinol, Canran, Yr holl ymatebwyr



H7. Nawr wrth feddwl am yr effaith mae'r ymgyrch wedi'i chael arnoch chi'n bersonol, sut mae'r ffilmiau a'r hysbysebion hyn yn effeithio ar eich canfyddiadau o Gymru fel cyrchfan gwyliau neu wyliau byr?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1,136


**Hyrwyddiad ac
ymwybyddiaeth o Gymru o
Gwpan Pêl-droed y Byd
(Tachwedd 2022)**



Faint a welwyd am Gymru yn ystod Cwpan y Byd

- Dywedodd 2 o bob 3 o bobl eu bod naill ai wedi gwyllo gêm bêl-droed Cymru neu wedi gweld rhyw fath o sylw yn y cyfryngau am Gymru yn ystod Cwpan Pêl-droed y Byd a gynhaliwyd ym mis Tachwedd-Rhagfyr 2022.
- Dywedodd bron i 2 o bob 5 (38%) eu bod wedi gwyllo gêm Cymru yn ystod y twrnaint (gallai hyn fod yn bersonol neu ar y teledu).
- Dywedodd 46% eu bod wedi gweld sylw yn y cyfryngau neu ffilmiau hyrwyddo neu hysbysebion eraill o Gymru mewn perthynas â'r twrnaint.
- Roedd preswylwyr o Gymru yn fwy tebygol o fod wedi gweld pob math o ddarllediadau o Gymru yn ystod y twrnaint, tra bod teuluoedd yn fwy tebygol nag ymddeolwyr neu annibynwyr hŷn o fod wedi gweld hysbysebion neu ffilm hyrwyddo. Roedd ymgysylltiad â'r sylw a gafodd Cymru hefyd yn uwch ymhlith y rhai â chysylltiad â Chymru heblaw am genedligrwydd.

Ffigur 78. Hyrwyddiadau neu sylw i Gymru yng Nghwpan Pêl-droed y Byd Dynion, Canran, Yr holl ymatebwyr




11. Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol wnaethoch chi eu gweld neu eu gwneud mewn perthynas â Chymru yng Nghwpan Pêl-droed y Byd Dynion?

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr n=1,136

Ymgysylltiad â Chymru o ganlyniad i hyrwyddiadau

- Roedd cyfanswm o 80% o'r ymatebwyr wedi ymgysylltu â Chymru ar ryw lefel o ganlyniad i wyllo darllediadau pêl-droed neu weld Cymru'n cael ei hyrwyddo yn ystod Cwpan y Byd.
- Y prif fath o ymgysylltu oedd naill ai gwyllo a chefnogi'r tîm yn y twrnaint neu siarad am Gymru gydag eraill.
- Nid yw'n syndod bod gwyllo gêm Cymru a chefnogi'r tîm yn uwch ymhlith preswylwyr o Gymru.
- Roedd cyfran is, ond sy'n dal yn nodedig, o'r rhai a welodd Gymru yn ymddangos yng Nghwpan y Byd yn ymgysylltu'n weithredol â gwahanol sianeli digidol a chyfryngau cymdeithasol.

Ffigur 79. Ymgysylltiad â Chymru yng Nghwpan Pêl-droed y Byd Dynion, Canran, Yr holl ymatebwyr a welodd gêm Cymru, hyrwyddiad, hysbysebu neu sylw yn y cyfryngau i Gymru yng Nghwpan y Byd



12. Pa un, os o gwbl, o'r canlynol wnaethoch chi o ganlyniad i weld hyrwyddiadau neu sylw i Gymru yn ystod Cwpan y Byd?


Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sydd wedi gweld gêm Cymru, hyrwyddiad, hysbysebu neu sylw yn y cyfryngau i Gymru yng Nghwpan y Byd n=707




Canfyddiadau o Gymru yn ystod Cwpan y Byd

- Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr fod sylw am Gymru a'i dyrchafiad yng Nghwpan y Byd yn eu gwneud yn fwy cadarnhaol am Gymru.
- Teuluoedd sy'n adrodd y teimladau positif uchaf gyda Chymru, sef 63%.

Ffigur 80. Canfyddiadau o Gymru yng Nghwpan Pêl-droed y Byd Dynion, Canran, Yr holl ymatebwyr a welodd hyrwyddiad neu sylw am Gymru yng Nghwpan y Byd



Ffigur 81. Canfyddiadau o Gymru yng Nghwpan Pêl-droed y Byd Dynion yn ôl CAM BYWYD, Canran, Yr holl ymatebwyr a welodd hyrwyddiad neu sylw am Gymru yng Nghwpan y Byd



13. Sut, os o gwbl, y mae hyrwyddiad a sylw am Gymru yng Nghwpan y Byd wedi effeithio ar eich canfyddiadau o Gymru? Sail: Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a welodd un o gemau Cymru, hyrwyddiad, hysbyseb neu sylw yn y cyfryngau am Gymru yng Nghwpan y Byd n=707n=728; Cyn-nythwyr n=122; Teuluoedd n=302; Annibynwyr Hŷn n=170; Ymddeolwyr n=134

Atodiad



Arwyddocâd ystadegol

Mae'r tabl isod yn amlinellu dibynadwyedd ystadegol yr ymatebion i'r arolwg. Nid yw'r enghreifftiau a ddefnyddiwyd yn hollgynhwysfawr ond fe'u dewiswyd i ddangos hyder amrywiol mewn ystod o wahanol feintiau sampl.

Sylfaen	Darganfyddiad arolwg o...		
	5 / 95%	20 / 80%	50 / 50%
Cyfanswm y sampl (1,136)	+/-1.3	+/- 2.3%	+/- 2.9%
Bwriadwyr i Gymru 2023 (616)	+/-1.7	+/- 3.2%	+/- 3.9%
Bwriadwyr y tu allan i Gymru (520)	+/- 1.9%	+/- 3.4%	+/- 4.3%